Caerdydd sy'n Deall **Niwrowahaniaeth**

**Neurodivergent** Friendly Cardiff

# Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

## Strategaeth

2025-2030



CARDIFF
CAERDYDD


Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys print bras neu Braille, cysylltwch â ni drwy'r wybodaeth isod.

**E-bost:** deallniwrowahaniaeth@caerdydd.gov.uk
**Ffôn:** 029 2087 1083

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Beth yw Niwrowahaniaeth? | 4 |
| Ynglŷn â Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth | 5 |
| Taith Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth | 6 |
| Crynodeb Gweithredol | 7 |
| Cyd-destun Strategol | 18 |
| Gwrando arnoch chi | 22 |
| Dwedoch Chi, Gwnaethon Ni! | 26 |
| Gweledigaeth | 29 |
| **Nod Allweddol 1:** Cael eich cynnwys a bod yn rhan o'ch cymuned | 30 |
| **Nod Allweddol 2:** Cyflawni eich nodau mewn addysg a chyflogaeth | 41 |
| **Nod Allweddol 3:** Cael gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddi | 56 |
| **Nod Allweddol 4:** Cefnogi iechyd a lles pobl niwrowahanol a'u teuluoedd | 64 |
| **Nod Allweddol 5:** Cael eich deall a dathlu gwahaniaethau | 74 |
| **Nod Allweddol 6:** Gwella amgylcheddau ar gyfer pobl niwrowahanol | 82 |
| Monitro Cynnydd | 97 |
| Casgliadau a Chamau Nesaf | 98 |
| Diffiniadau Defnyddiol | 99 |

# Rhagair



**Y Cynghorydd Leonora Thomson**
Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol

Rwy'n falch iawn o gyflwyno'r strategaeth hon sy'n amlinellu sut y byddwn yn gweithio tuag at ddod yn Gaerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth. Nod y strategaeth ddinas gyfan hon yw cyflawni ein gweledigaeth o Gaerdydd yn dod yn ddinas sy'n croesawu ac yn cefnogi pawb.

Mae 1 o bob 7 o bobl yn y Deyrnas Unedig yn niwrowahanol, sy'n golygu eu bod yn profi'r byd yn wahanol. Yn aml, mae gan bobl niwrowahanol gryfderau a galluoedd unigryw, ond maen nhw'n gallu wynebu ystod o rwystrau ar draws ein cymdeithas, gan gynnwys dod o hyd i waith, tebygolrwydd uwch o gael diagnosis iechyd meddwl, ac ynysu cymdeithasol.

Rydw i am weithio tuag at Gaerdydd lle mae unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd yn gallu ffynnu. Nid yn unig er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn niwrowahanol, ond hefyd i greu Caerdydd sy'n dathlu ac yn cefnogi gwahaniaethau.

Mae'r strategaeth hon wedi ei llunio trwy ymgysylltu â'n cymuned niwrowahanol ac mae'n ganlyniad i gydweithio gyda'n partneriaid. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu ac wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Dyma'r strategaeth Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth gyntaf, ac rydym yn deall bod hon yn daith barhaus y mae angen ei gyrru gan leisiau'r rheini sydd â phrofiad byw. Bydd ymgysylltu ac ymgynghori pellach trwy gydol ein taith, ac edrychwn ymlaen at glywed sylwadau pawb am sut y gallwn greu dinas wirioneddol gynhwysol.

Rwy'n gwahodd pob dinesydd, busnes a sefydliad yng Nghaerdydd i ymuno â ni ar ein taith tuag at fod yn ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth, lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu cefnogi i fyw eu bywydau gorau.



# Beth yw Niwrowahaniaeth?



**Niwroamrywiaeth** - Mae ymennydd pob un ohonom yn unigryw ac mae gan bob un ohonom wahaniaethau o ran sgiliau, diddordebau a steiliau.

**Niwronodweddiadol** - Er ein bod yn byw mewn cymdeithas niwroamrywiol a bod llawer o wahaniaethau rhyngom, mae pobl niwronodweddiadol yn gweld y byd yn yr un modd.





**Niwrowahaniaeth** - Mae gan eraill wahaniaethau mwy sylfaenol o ran eu dealltwriaeth gymdeithasol, prosesu synhwyraidd, cyfathrebu a phrosesu gwybodaeth. Dyma ystyr 'niwrowahaniaeth'.

**Ymbarél Niwrowahaniaeth** - Mae'r term 'niwrowahanol' yn derm ymbarél ar ystod eang o wahaniaethau a chyflyrau niwrolegol gwahanol. Gallai fod gan bobl sy'n niwrowahanol fwy nag un math o niwrowahaniaeth.



Er y gall rhai unigolion niwrowahanol hefyd fod ag anableddau dysgu, nid oes anawsterau dysgu gan bob unigolyn niwrowahanol.

Dylid nodi na fydd gan lawer o bobl sy'n niwrowahanol ddiagnosis ffurfiol ac nad ydynt yn dymuno cael un. Er y gall diagnosis roi eglurder a mynediad at gyngor a chymorth meddygol, bydd y strategaeth hon yn anelu at gynyddu ymwybyddiaeth o wasanaethau, gweithgareddau a chefnogaeth i bawb sy'n uniaethu fel niwrowahanol a'u teuluoedd - p'un a oes ganddynt ddiagnosis ai peidio. Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio iaith gynhwysol a pharchus trwy gydol y strategaeth hon. Rydym wedi ceisio defnyddio'r iaith a'r derminoleg y mae'r rheini sydd â phrofiad byw ac arbenigwyr yn eu ffafrio.

Bydd y strategaeth hon yn aml yn defnyddio'r gair 'niwrowahanol' fel term ymbarél. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall pobl sy'n niwrowahanol ac sydd â nodweddion gwahanol fod ag anghenion a phrofiadau gwahanol iawn.

# Ynglŷn â Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Mae Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn rhwydwaith o bartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF), Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddlu De Cymru a'r trydydd sector, ogystal â sefydliadau eraill gan gynnwys busnesau, siopau, lleoliadau adloniant, grwpiau cymunedol a phobl niwrowahanol eu hunain, sy'n ymdrechu i greu dinas fwy cynhwysol.

# Taith Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth:

**Medi 2023**

Cynnig wedi'i basio gan y Cyngor i weithio tuag at wneud Caerdydd yn fwy deallus o ran niwrowahaniaeth

**Ionawr 2024**

Ymrwymiad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd i ddull dinas gyfan at ddatblygu'r strategaeth hon

**Mawrth 2024**

Digwyddiad Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth i gyhoeddi adeiladu'r strategaeth hon

**Mawrth 2024 - Mehefin 2024**

Ymgysylltu â phobl a phartneriaid niwrowahanol

**Mehefin 2024 - Rhagfyr 2024**

Gwasanaethau mapio a gwaith partneriaeth

**Ionawr 2025**

Lansio gwefan 'dweud eich dweud' Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

**Mawrth 2025**

Lansio Hybiau Deall Niwrowahaniaeth

**Gorffennaf 2025**

Lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Ddrafft Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

**Rhagfyr 2025**

Cabinet Cyngor Caerdydd yn cymeradwyo Strategaeth Deall Niwrowahaniaeth ar gyfer Caerdydd

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r strategaeth hon yn amlinellu ymrwymiad Caerdydd i'r weledigaeth ganlynol:-

**"Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a gwneud Caerdydd yn rhywle lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu cefnogi i fyw'n dda a ffynnu".**

Bydd y weledigaeth yn cael ei chyflawni trwy 6 nod allweddol:-

» **Nod Allweddol 1:** Cael eich cynnwys a bod yn rhan o'ch cymuned

» **Nod Allweddol 2:** Cyflawni eich nodau mewn addysg a chyflogaeth

» **Nod Allweddol 3:** Cael gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddi

» **Nod Allweddol 4:** Cefnogi iechyd a lles pobl niwrowahanol a'u teuluoedd

» **Nod Allweddol 5:** Cael eich deall a dathlu gwahaniaethau

» **Nod Allweddol 6:** Gwella amgylcheddau ar gyfer pobl niwrowahanol

Bydd y nodau allweddol yn cael eu cyflawni trwy gyflawni'r ymrwymiadau '**Byddwn Yn**' sydd wedi'u hadlewyrchu trwy gydol y strategaeth..



# Nod Allweddol 1 (Tudalen **30 - 40**)

## Cael eich cynnwys a bod yn rhan o'ch cymuned



Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd lle mae pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau i wella lles a chyfoethogi eu bywydau.

**Bydd Cyngor Caerdydd yn**

- gweithio gyda phobl niwrowahanol hŷn i ddatblygu grwpiau sy'n cefnogi eu lles (Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd).
- ymchwilio, datblygu a chyflwyno sesiynau dan arweiniad gwirfoddolwyr gyda'r nod o greu gofod cefnogol i'r rhai sy'n niwrowahanol. (Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd)
- byddwn yn ymgynghori â phobl ifanc i greu grwpiau a gweithgareddau cynhwysol sy'n seiliedig ar anghenion ar draws pob un o'n hardaloedd, gan ehangu ein darpariaeth ar gyfer pobl ifanc niwrowahanol yng Nghaerdydd (Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd).
- darparu 'sesiynau tawel' i blant a phobl ifanc a theuluoedd niwrowahanol, y byddai'n well ganddynt fynychu sesiynau tawelach. (Gwasanaethau Chwarae Cynhwysol)

**Bydd Cymdeithas Dyslecsia Prydain yn**

- gweithio mewn partneriaeth drwy brosiect Hyb Dyslecsia De Cymru i roi cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad byw o ddyslecsia a dyscalcwlia ddod at ei gilydd, meithrin cysylltiadau cymdeithasol a dysgu am strategaethau ymarferol.

**Bydd Gweithredu yng Nghaerau a Threlái yn**

- codi ymwybyddiaeth o'r Prosiect Ymbarél 'Cymorth cyfoedion i rieni a theuluoedd sy'n amau niwrowahaniaeth neu sydd wedi cael diagnosis o niwrowahaniaeth' drwy ddarparu cymorth allgymorth i ysgolion a gweithio mewn partneriaeth.

**Bydd Cysylltiadau Sbectrwm Awtistiaeth Cymru (ASC Cymru) yn**

- codi ymwybyddiaeth o'r sesiynau galw heibio cymdeithasol ar gyfer oedolion awtistig a gweithgareddau eraill y gallai fod ganddynt ddiddordeb ynddynt drwy weithio gyda phartneriaid i rannu'r wybodaeth.

**Bydd Chwaraeon Met Caerdydd yn**

- cynnig sesiynau pwrpasol i bobl ifanc niwrowahanol a'u teuluoedd, gan roi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyda'i gilydd ar draws Caerdydd.

# Nod Allweddol 2 (Tudalen **41 - 55**)

## Cyflawni eich nodau mewn addysg a chyflogaeth



Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd sy'n deall pobl niwrowahanol yn well a lle maen nhw'n cael eu cefnogi'n well drwy addysg i gyrraedd eu nodau, gan gynnwys dod o hyd i waith ac annog cyflogwyr i greu amgylcheddau gwaith sy'n diwallu eu hanghenion.

**Bydd Cyngor Caerdydd yn**

- gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol yng Nghaerdydd i gyflwyno fframwaith sy'n ymgorffori arfer gorau ar gyfer dysgu niwrowahanol. (Tîm Cynhwysiant Addysg)
- gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Cyflogaeth Dan Gymorth Lleol (CDGLl) i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau a nifer y bobl a gefnogir i mewn i waith. (Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd)
- cynnig Gwasanaeth i Mewn i Waith sy'n deall niwrowahaniaeth, gan wneud addasiadau pan fo angen megis dogfennau hawdd eu darllen ac 'oriau tawel' yn ystod Ffeiriau Swyddi (Gwasanaeth i Mewn i Waith Caerdydd)
- parhau i ymgysylltu a gweithio'n agos gyda'r Gymuned Cyflogeion Niwrowahanol i nodi sut y gallwn ddiwallu anghenion staff niwrowahanol. (Cyngor Caerdydd)
- datblygu Fframwaith Cynhwysiant Caerdydd sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer ymarfer cynhwysol gan adeiladu ar fentrau fel Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ac Ysgolion Noddfa (Addysg)
- ymgorffori cynllunio cydweithredol rhwng y Gwasanaethau Cynhwysiant ac ysgolion fel bod gwella a chynhwysiant ysgolion yn cael eu hintegreiddio'n llawn (Addysg)
- sicrhau bod ysgolion yn defnyddio offer sgrinio ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a

chyfathrebu ac yn ymateb gyda strategaethau sy'n cefnogi ymgysylltu ac yn lleihau ymddygiad heriol (Addysg)

- gwneud darllen yn flaenoriaeth trwy gyflwyno dysgu proffesiynol i gryfhau addysgu darllen i bawb o bob oedran a gallu (Addysg)
- cryfhau dealltwriaeth a defnydd o ddulliau addysgu addasol fel y gall addysgwyr ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (Addysg)
- cyflwyno Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma ym mhob ysgol ac ymgorffori dulliau ysgol gyfan i greu amgylcheddau diogel, meithringar (Addysg)

**Bydd Caerdydd sy'n Dda i Blant yn**

- ceisio gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc ar gynhwysiant o fewn addysg ac agweddau pwysig eraill o'u bywydau, gan geisio eu syniadau a'u cyfranogiad a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn sgyrsiau ynghylch niwrowahaniaeth.

**Bydd Tîm Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Caerdydd yn**

- cynnig cyfle i ddarpar fyfyrwyr niwrowahanol a'u cefnogwyr ymweld â'r brifysgol ar 'Ddiwrnod Ymweliad Tawel'.

**Bydd Amgueddfa Cymru yn**

- gweithio tuag at greu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol a hygyrch i staff niwrowahanol yn yr Amgueddfa.

**Bydd Project SEARCH yn**

- codi ymwybyddiaeth o Brosiect SEARCH a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n niwrowahanol ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gael mynediad at lwybrau cyflogaeth.

**Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh) yn**

- parhau i weithio gyda phartneriaid sy'n darparu llwybrau cefnogol i mewn i waith gan gynnig cyngor arbenigol i unigolion niwrowahanol sy'n chwilio am waith.

# Nod Allweddol 3 (Tudalen **56 - 63**)

## Cael gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddi



Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd lle mae gan bobl niwrowahanol, rhieni, teuluoedd a gofalwyr di-dâl fynediad gwell at wybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael.

**Bydd Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn**

» Sefydlu 'Pwyntiau Gwybodaeth Niwrowahaniaeth' ar draws pob Hyb a Llyfrgell yng Nghaerdydd ac ar draws lleoliadau gofal iechyd penodol.

» datblygu gwefan Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, gyda'r nod o ddod â gwybodaeth leol at ei gilydd mewn lleoliad canolog sy'n hawdd ei lywio.

» cyflwyno cyfrifon cyfryngau cymdeithasol fel Facebook ac Instagram i ehangu cyrhaeddiad ein gwaith o ymgysylltu â'r gymuned niwrowahanol yng Nghaerdydd a hyrwyddo gwaith Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth.

» sefydlu Fforwm Deall Niwrowahaniaeth a fydd yn cwrdd bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Gaerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, y Cynghorydd Leonora Thomson.

» datblygu cylchlythyr chwarterol sy'n rhannu'r wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael i bobl niwrowahanol yng Nghaerdydd.

» defnyddio'r platfform Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau eraill sy'n canolbwyntio ar niwrowahaniaeth a gwneud y digwyddiadau hyn yn fwy gweladwy.

**Bydd Cyngor Caerdydd yn**

» gweithio i sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau allweddol yn fwy hygyrch i bawb drwy ddatblygu gwefan hawdd ei darllen.

» datblygu gwefan newydd a mwy hygyrch i gynnig gwybodaeth a chyngor i rieni, gofalwyr a theuluoedd yng Nghaerdydd. (Gwefan Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Mynegai)

» archwilio ffyrdd o wneud Bwletin y Mynegai yn fwy diddorol a hygyrch i deuluoedd yng Nghaerdydd. (Gwefan Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Mynegai)

**Bydd Niwrowahaniaeth Cymru yn**

» gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael ac annog sefydliadau ledled Caerdydd i wella eu dealltwriaeth o niwrowahaniaeth.



## Nod Allweddol 4 (Tudalen **64 - 73**)

### Cefnogi iechyd a lles pobl niwrowahanol a'u teuluoedd

Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd lle mae anghenion iechyd a lles pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi.

**Bydd Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) yn**

» Sefydlu a chydlynu Grŵp Gweithredu Niwrowahaniaeth, sy'n galluogi sefydliadau trydydd sector i rannu eu profiadau, datblygu swyddi eiriolaeth ar y cyd a llunio gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion heb eu diwallu.

**Bydd Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro yn**

» rhannu gwybodaeth am y cwrs 'Deall Niwroamrywiaeth' i'r rhai sydd â phrofiad bywyd a gweithwyr proffesiynol i wella eu dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael trwy eu hyrwyddo trwy ein partneriaethau ni.

**Bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro yn**

» sefydlu Bwrdd Niwrowahaniaeth strategol i alluogi gwaith partneriaeth gwell ar draws y rhanbarth

» cyflawni meysydd blaenoriaeth allweddol y Cynllun Cyflawni Niwrowahaniaeth.

**Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn**

» Parhau'n ymrwymedig i ddull "Dim Drws Anghywir" i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol waeth beth fo'r pwynt mynediad i'r system.

» Tywys teuluoedd tuag at y cymorth a'r adnoddau mwyaf priodol i helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn.

» Parhau i ganolbwyntio ar leihau rhestrau aros yn wyneb galw cynyddol ac absenoldeb capasiti ychwanegol.

» Darparu asesiadau cynhwysfawr sy'n nodi cryfderau yn ogystal â heriau gydag argymhellion wedi'u teilwra.

» Gweithio'n galed er gwaethaf galw uchel i hysbysu pobl ar bob cam o'r broses.

**Bydd Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) Caerdydd a'r Fro yn**

» parhau i symleiddio'r broses asesu ddiagnostig yn wyneb y galw parhaus yn absenoldeb adnoddau ychwanegol.

» canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant o fewn y Bwrdd Iechyd, yn enwedig ar draws y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl, a chynyddu'r cynnig o gyngor ac ymgynghori i sefydliadau partner.

**Bydd Cyngor Caerdydd yn**

» gweithio gyda phartneriaid Tai i gynyddu mynediad at lety gyda gofal a chefnogaeth ar y safle. (Gwasanaethau Oedolion y Tîm Niwroamrywiaeth)

» ymgysylltu â phartneriaid i roi barn unigolion niwrowahanol wrth wraidd y gwasanaethau rydyn ni'n eu datblygu. (Gwasanaethau Oedolion y Tîm Niwroamrywiaeth)

» cyflwyno 'Rhan y Rhiant' i gefnogi rhieni plant ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG), gan ddefnyddio ysgolion, Hybiau a lleoliadau cymunedol ar draws Caerdydd. (Rhianta Caerdydd)

**Bydd y Tîm Profiadau Blynyddoedd Cynnar yn**

» gweithio mewn partneriaeth i gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglen E-Pats (rhaglen 8 wythnos i deuluoedd sy'n magu plentyn ifanc sydd ag anabledd

dysgu a/neu ddatblygiadol) fel bod mwy o deuluoedd yn cael cynnig cymorth a'r gallu i gysylltu â theuluoedd eraill sydd â phrofiad byw.

**Bydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC) yn**

» gweithio gydag eraill ar draws Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i nodi a phrofi ymyriadau a fydd yn gwella profiadau a chanlyniadau i'r rheini sydd ag anawsterau synhwyraidd a dementia.

## Nod Allweddol 5 (Tudalen **74 - 81**)

(Tudalen **74 - 81**)

### Cael eich deall a dathlu gwahaniaethau



Ein nod yw codi ymwybyddiaeth o gryfderau a chyfraniad pobl niwrowahanol yng Nghaerdydd a gweithio tuag at ddinas lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi.

**Bydd Cyngor Caerdydd yn:**

» Dathlu pobl niwrowahanol a gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o niwrowahaniaeth a chroestoriadedd (Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth)

» Ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd i helpu i lunio cyfathrebu ledled y ddinas gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth a mynd i'r afael â stigma (Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth)

**Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn**

» gwerthuso prosesau i gefnogi hygyrchedd, gan gynnwys recriwtio, dyrchafu ac addasiadau rhesymol.

» cefnogi a hyrwyddo'r Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth a gweithio ar y cyd â'r rhwydwaith gan gynnwys yn ystod ymarferion ymgynghori a gweithdrefnau.

**Bydd Heddlu De Cymru yn**

- gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Niwroamrywiaeth i wella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth ac o addasiadau y gellir eu gwneud ar draws yr heddlu.
- ymgysylltu â'r Rhwydwaith Niwroamrywiaeth ac aelodau o'r gymuned niwrowahanol i archwilio'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi unigolion niwrowahanol i gael mynediad at wasanaethau'r heddlu ac i deimlo'n ddiogel yng Nghaerdydd.

**Bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (GCPhEF) yn**

- gweithio i greu amgylchedd cynhwysol a chefnogol ar gyfer carcharorion niwrowahanol yng Nghaerdydd, gan gynnig ystod o wasanaethau wedi'u teilwra sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion unigryw.

**Bydd Balchder Anabledd**

- gweithio mewn partneriaeth i gynnal digwyddiadau Balchder Anabledd yng Nghaerdydd, gan godi ymwybyddiaeth o anableddau a niwrowahaniaeth a dathlu gwahaniaeth.

**Bydd Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd yn**

- ymgysylltu â chwsmeriaid niwrowahanol i ddatblygu casgliadau arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion.

**Dathlu Niwrowahaniaeth yn y Celfyddydau**

- gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo digwyddiadau sy'n hygyrch ac yn dathlu niwrowahaniaeth a chynhwysiant yng Nghaerdydd.

# Nod Allweddol 6 (Tudalen **82 - 96**)

## Gwella amgylcheddau ar gyfer pobl niwrowahanol



Ein nod yw hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol ledled y ddinas a gweithio tuag at Gaerdydd lle mae mannau cyhoeddus a chymunedol yn hygyrch i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd.

**Bydd Cyngor Caerdydd yn**

» datblygu darpariaeth tai â chymorth arbenigol i oedolion ag awtistiaeth ac anableddau dysgu. (Tai Cyngor Caerdydd)

» creu Hybiau a Llyfrgelloedd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ac sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid niwrowahanol. (Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth)

» Sicrhau bod pob datblygiad newydd yng Nghaerdydd yn cael y canllaw sy'n ymwneud â Pholisi Strategol 4 sy'n hyrwyddo adeiladau a mannau cynhwysol sy'n deall niwrowahaniaeth yng Nghaerdydd (Cynllun Datblygu Lleol 2021-2036).

**Bydd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru Prifysgol Caerdydd yn**

» cynnal ymchwil o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl awtistig, eu teuluoedd a'r bobl sy'n eu cefnogi.

**Bydd Canolfan Siopa Dewi Sant yn**

» datblygu canllaw hygyrchedd sy'n ystyriol o niwrowahaniaeth, gan ddangos ble y gall gwesteion ddod o hyd i'r gofod tawel a'r adnoddau sydd ar gael, gan wella arwyddion ac ymwybyddiaeth.

**Bydd Cei'r Fôr-Forwyn yn**

» cyflwyno pecynnau o adnoddau synhwyraidd a fydd ar gael i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd eu benthyg pan fyddant yn ymweld.

**Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCaF) yn**

» cyd-drefnu'r gwaith o gyflwyno byrddau cyfathrebu mewn lleoliadau cymunedol ar draws Caerdydd a'r Fro.

**Bydd Canolfan y Mileniwm yn**

» ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad byw o niwrowahaniaeth i ddeall effeithiolrwydd gwahanol fentrau a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd parhaus.

**Bydd Stadiwm Principality yn**

» parhau i ddarparu ystafell dawel yn y stadiwm ac archwilio cyfleoedd i greu ystafell synhwyraidd.

**Bydd Trafnidiaeth Cymru (TC) yn**

» ymgorffori polisi a chynllun gweithredu niwrowahaniaeth sydd wedi'u cynllunio i wella profiadau ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid sy'n niwrowahanol.

# Cyd-destun Strategol

Mae'r strategaeth hon yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth, y cynlluniau a'r strategaethau canlynol.

## Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lansiwyd Rhaglen Gwella Niwrowahaniaeth Cymru gyda datblygiad Strategaeth Awtistiaeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2008. Ers hynny, mae nifer o wahanol bolisïau ac adroddiadau wedi cael eu cynhyrchu. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â meysydd allweddol o bryder a nodwyd gan y bobl a gymerodd ran, ac mae wedi sefydlu tair ffrwd waith i fwrw ymlaen â nhw fel y meysydd blaenoriaeth:

» Mynd i'r afael ag angen brys
» Adeiladu gwasanaethau cynaliadwy
» Seilwaith a gweithlu niwrowahaniaeth

## Cod Ymarfer Awtistiaeth / Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth

Y Cod Ymarfer ar ddarparu gwasanaethau awtistiaeth a ddaeth i rym ar 1 Medi 2021. Mae'r cod yn berthnasol i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd a ddarperir gan fyrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'r cod yn amlinellu cynllun cyfreithiol y mae'n rhaid i sefydliadau gadw ato.

Nodwyd bod angen ehangu'r cod i gynnwys cyflyrau niwrowahanol eraill, sy'n aml yn cyd-ddigwydd ag awtistiaeth. Mae'r Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth felly yn cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

## 'Ein Cynllun Babanod, Plant a Phobl Ifanc 2025-2035' Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Shaping Our Future
Wellbeing

Yn dilyn y broses o adnewyddu eu strategaeth 'Llunio Ein Llesiant i'r Dyfodol', mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc 2025-2035. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y

byddant yn cyflawni eu gweledigaeth, gan sicrhau, erbyn 2035, bod pob plentyn yn derbyn gofal teg, o ansawdd uchel sy'n caniatáu iddynt ffynnu.

## Cyd-gynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro 2023-2028

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, tai, y trydydd sector a gofalwyr. Mae'r Cyd-gynllun Ardal 2023-28 yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn digwydd ar draws y bartneriaeth ac yn disgrifio sut maent yn bwriadu goresgyn bylchau a heriau a nodwyd.

## Cynllun Corfforaethol Caerdydd 2025-2028

CARDIFF
CAERDYDD

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Caerdydd 2025-28 yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei weledigaeth 'Cryfach, Tecach a Gwyrddach' ar gyfer Caerdydd, i wella bywydau ei holl drigolion. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn nodi ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Deall Niwrowahaniaeth i sicrhau bod gwasanaethau'n gynhwysol ac yn ymatebol. Bydd cefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu yn cael ei chryfhau, ochr yn ochr ag ymrwymiad parhaus i ddarparu addysg gynhwysol o ansawdd uchel i bob plentyn a pherson ifanc.

## Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Caerdydd 2024-28

Mae'r strategaeth hon yn disgrifio cynlluniau Cyngor Caerdydd ar gyfer y 4 blynedd nesaf o ran sut y byddant yn gweithio i ddeall a diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth amrywiol a chynnal dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu cynllun i hybu canlyniadau gwell i bobl sy'n profi anfantais sy'n gysylltiedig â'u nodweddion gwarchodedig neu o ganlyniad i anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

## Cynllun Cynaliadwyedd Caerdydd sy'n Dda i Blant

Child Friendly Cardiff
Caerdydd Sy'n Dda i Blant

Mae Caerdydd yn falch o fod wedi cael ei chydnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF gyntaf y DU, ac rydym yn benderfynol o gynnwys

pob plentyn a pherson ifanc yn llawn wrth lunio ac elwa o'n dinas.

Pwrpas y strategaeth hon yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu mwynhau eu hawliau i gyd – gartref, yn yr ysgol, wrth gael mynediad at wasanaethau, ac ar draws y ddinas. Nid yw'n golygu gofyn i blant newid pwy ydyn nhw. Mae'n golygu newid y ffordd y mae Caerdydd yn gweithio er mwyn cynnwys a dathlu pawb yn well.

**"Dyw cynhwysiant ddim yn ddewisol – mae'n hawl."**

## Strategaeth Byw'n Dda gydag Anabledd Dysgu i Oedolion 2024-2029 Caerdydd

Byw'n Dda gydag Anabledd Dysgu
Strategaeth i Oedolion

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd "Strategaeth Byw'n Dda gydag Anabledd Dysgu i Oedolion 2024-2029" Caerdydd. Gweledigaeth y strategaeth hon yw hyrwyddo annibyniaeth a gwella bywydau pobl ag anableddau dysgu yng Nghaerdydd. Mae'r strategaeth yn disgrifio ymrwymiadau ac ymroddiad penodol Caerdydd i ddarparu gwasanaethau o safon i bobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

Ei hegwyddorion allweddol yw:

- **Atal:** Hyrwyddo atal ac ymyrraeth gynnar.
- **Beth sy'n bwysig i mi:** Gwrando ar bobl a gweithio gyda phobl ar y cyd.
- **Sicrhau gofal o ansawdd uchel:** Datblygu gwasanaethau o ansawdd.
- **Gartref gyntaf:** Cefnogi pobl i fyw'n lleol..

Mae ymchwil wedi dangos y gall pobl ag anableddau dysgu hefyd fod yn niwrowahanol. Felly, gall rhai o'r gwasanaethau allweddol a ddisgrifir yn Strategaeth Anabledd Dysgu Caerdydd fod yn berthnasol i rai unigolion niwrowahanol.



## Strategaeth Rhianta Corfforaethol

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn mynd i ofal y Cyngor, a bod yr Awdurdod Lleol yn ymgymryd â rôl y rhiant, gelwir hyn yn Rhianta Corfforaethol.

Mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol yn strategaeth tair

blynedd sy'n nodi'r hyn y mae angen i'r Awdurdod Lleol, staff a'i bartneriaid i gyd ei wneud fel rhieni corfforaethol i gefnogi ein plant sy'n derbyn gofal, a'r rheini sy'n gadael gofal, i'w galluogi i ffynnu a gwella canlyniadau. Mae'n amlinellu cyfres o egwyddorion sy'n sail i'r gwaith hwn, a phum blaenoriaeth allweddol sydd wedi'u llunio yn seiliedig ar safbwyntiau a phrofiadau rhai o'n Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghaerdydd.

Mae'r pum blaenoriaeth fel a ganlyn:

- **Blaenoriaeth 1:** Gwella lles emosiynol ac iechyd corfforol
- **Blaenoriaeth 2:** Gwell cysylltiadau, gwell perthnasoedd
- **Blaenoriaeth 3:** Cartref cyfforddus, diogel a sefydlog mewn gofal ac ar ôl hynny
- **Blaenoriaeth 4:** Cyflawniad addysgol, cyflogaeth a hyfforddiant
- **Blaenoriaeth 5:** Cynnwys a dathlu ein plant a'n pobl ifanc

Mae'r Cynllun Blynyddol Rhianta Corfforaethol 2025-2026 yn amlinellu'r blaenoriaethau a'r cynllun cyflawni ar gyfer y Strategaeth Rhianta Corfforaethol ar gyfer y 12 mis i ddod. Mae'r cynllun yn amlinellu camau gweithredu, targedau a dangosyddion llwyddiant penodol i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud ym mhob maes blaenoriaeth, gan bwysleisio cydweithio, cefnogi a dathlu cyflawniadau.

Bydd anghenion plant sy'n derbyn gofal ac sy'n niwrowahanol yn cael eu hadlewyrchu a'u hystyried wrth ddatblygu a rhoi'r Cynllun a Strategaeth Rhianta Corfforaethol ar waith.

## Caerdydd Ddwyieithog

Mae'r strategaeth hon, a ddatblygwyd yn unol â gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015, yn amlinellu gweledigaeth Cyngor Caerdydd i ddatblygu Caerdydd wirioneddol ddwyieithog, lle mae dwyieithrwydd yn cael ei hyrwyddo a lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu a'u cyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal i'n trigolion, defnyddwyr gwasanaeth a chwsmeriaid.


Mae'r cyrff cyhoeddus a gyfrannodd at y Strategaeth Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth hefyd wedi ymrwymo i fodloni gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, a Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'w sefydliadau nhw eu hunain.

## Gwrando arnoch chi:

### Ymgynghoriad ar y Strategaeth Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ddrafft



Er mwyn helpu i lywio'r strategaeth hon, mae pob ymdrech wedi'i wneud i ymgysylltu â'r gymuned niwrowahanol o'r cychwyn cyntaf. Rhwng Mawrth 2024 a Mehefin 2024 cynhaliwyd gweithgareddau amrywiol i ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd, gan gynnwys; digwyddiad gyda dros 200 o ddinasyddion, cyfres o grwpiau ffocws ar-lein wedi'u targedu at unigolion niwrowahanol ac ymgysylltu wyneb yn wyneb â grwpiau a dargedwyd fel Grŵp Ieuenctid NeuroRoots, Grwpiau Rhianta a Fforwm Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn.






Yn dilyn yr ymgysylltiad cychwynnol hwn, lansiwyd ymgynghoriad llawn ar 18 Gorffennaf 2025 i gael adborth ar y Strategaeth Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth 2025-2030 ddrafft a chlywed lleisiau mwy o drigolion yng Nghaerdydd.

Gofynnwyd i'r rhai dros 16 oed gwblhau'r 'Arolwg Strategaeth Deall Niwrowahaniaeth Ddrafft' (arolwg Oedolion) a gofynnwyd i'r rhai rhwng 8 a 15 oed gwblhau'r 'Arolwg Plant a Phobl Ifanc'. Er mwyn cefnogi mwy o bobl i gymryd rhan yn yr arolwg, cynhyrchwyd fersiwn Hawdd ei Deall o'r strategaeth ddrafft, yn ogystal ag 'Arolwg Hawdd ei Ddeall'.

Roedd copïau papur o'r holl arolygon ac amlenni RHADBOST ar gael ym mhob Hyb a Llyfrgell ledled Caerdydd ac roedd fersiynau ar-lein o'r arolygon ar gael hefyd. Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o grwpiau ffocws wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ystod y cyfnod ymgynghori i gynnig ffurf amgen o gyfathrebu i unigolion rannu eu barn ar y strategaeth ddrafft.




Cyfanswm o **809** o ymatebion i'r arolygon ymgynghori cyhoeddus

**689** o ymatebion i'r arolwg oedolion



**95** o ymatebion i'r arolwg plant a phobl ifanc



**25** o ymatebion i'r arolwg hawdd ei ddeall



Ar y cyfan, roedd **85.3%** po gyfranogwyr yn cytuno â'r weledigaeth ar gyfer Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth.

## Y Weledigaeth

Dywedodd **84%** o Oedolion wrthym eu bod yn cytuno **â'r weledigaeth**

Dywedodd **92.5%** o blant a phobl ifanc wrthym eu bod yn cytuno **â'r weledigaeth**

Dywedodd **95.2%** o'r bobl a gwblhaodd yr arolwg Hawdd ei Ddeall wrthym eu bod yn cytuno **â'r weledigaeth**

**"Mae'n swnio fel syniad da a fydd yn gwneud Caerdydd yn lle haws i fyw i lawer o bobl, nid dim ond pobl niwrowahanol"**

## Arolwg Oedolion:

Roedd **85%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 1**;

Roedd **84.6%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 2**;

Roedd **84.5%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 3**;

Roedd **82.6%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 4**;

Roedd **80.4%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 5**;

Roedd **81.5%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 6**;

## Arolwg Plant a Phobl Ifanc

Roedd **94.7%** o bobl ifanc yn cytuno â **nod allweddol 1**;

Roedd **88.3%** o bobl ifanc yn cytuno â **nod allweddol 2**;

Roedd **87.2%** o bobl ifanc yn cytuno â **nod allweddol 3**;

Roedd **89.2%** o bobl ifanc yn cytuno â **nod allweddol 4**;

Roedd **89.5%** o bobl ifanc yn cytuno â **nod allweddol 5**;

Roedd **86%** o bobl yn cytuno â **nod allweddol 6:**

“Mae’n hanfodol i unrhyw blentyn niwrowahanol deimlo ei fod wedi’i gynnwys yn hytrach nag wedi’i eithrio, sy’n digwydd yn amlach na pheidio.”

“Ni ddylai pobl niwrowahanol fod dan anfantais a dylent gael gweithgareddau a digwyddiadau hygyrch gyda’u hanghenion mewn golwg - fel mannau tawel ac ati.”

“Mae gen i lawer o ffrindiau niwrowahanol ac rwy’n deall y problemau maen nhw’n eu hwynebu felly hoffwn helpu i wneud eu byd nhw’n lle llai dryslyd a swnllyd”

“Gobeithio y bydd dathlu niwrowahaniaeth yn dod ag adborth cadarnhaol.  Po fwyaf o hyfforddiant y gorau i’r rhai sy’n cefnogi’r cyhoedd niwrowahanol”

“Gallai rheolwyr a’r rhai mewn rolau arwain elwa o hyfforddiant, yn ogystal ag athrawon i sicrhau dealltwriaeth lawn o fanteision gweithio gyda/i’r rhai sy’n niwrowahanol”

“Gall y wybodaeth hon hefyd gael ei harddangos mewn canolfannau cymunedol fel llyfrgelloedd a hybiau fel ei bod ar gael i bawb, a gallai gael ei chyfieithu i rai o’r prif 2il ieithoedd a siaredir yng Nghaerdydd”

“Ie, ond dim “mae’n bŵer hudol” neu ryw nonsens plentynnaidd arall. Mae gennym gryfderau fel cydnabod patrymau, cof hirdymor, creadigrwydd, arloesi ac ati. Byddwch yn realistig wrth gyfathrebu.”

# Dwedoch Chi, Gwnaethon Ni!

## Gweledigaeth

**Dwedoch chi:** Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen i weledigaeth y strategaeth fynd y tu hwnt i 'fyw'n dda'.

**Gwnaethon ni:** Mae'r weledigaeth wedi'i hail-ddrafftio i dynnu sylw at ein nod o weithio tuag at Gaerdydd lle mae pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yn gallu byw'n dda a ffynnu.

## Nod Allweddol 1

**Dwedoch chi:** Dylid canolbwyntio mwy ar weithgareddau a chefnogaeth i oedolion niwrowahanol, yn enwedig oedolion hŷn sy'n byw yng Nghaerdydd.

**Gwnaethon ni:** Gweithio gyda Thîm Lles Caerdydd i sicrhau bod grwpiau presennol sy'n cefnogi pobl hŷn yng Nghaerdydd yn gynhwysol, yn deall niwrowahaniaeth, yn ogystal â sefydlu grwpiau cymdeithasol ar gyfer oedolion hŷn niwrowahanol.

**Dwedoch chi:** Mae angen mwy o ffocws ar weithgareddau ar gyfer gwahanol ddiddordebau, yn enwedig yn y celfyddydau.

**Gwnaethon ni:** Dod â phartneriaid newydd i mewn a chynnwys ymrwymiadau gan The Aloud Charity, grŵp côr sy'n ymroddedig i gynhwysiant..

**Dwedoch chi:** Roedd angen cyfleoedd i blant gael mynediad at barciau cynhwysol.

**Gwnaethon ni:** Ychwanegu ymrwymiad gan Wasanaeth Parciau Caerdydd i fynd i'r afael â cheisiadau mynediad penodol lle bo hynny'n bosibl.

## Nod Allweddol 2

**Dwedoch chi:** Roedd angen gwelliannau ar draws amgylcheddau ysgol yng Nghaerdydd, gan wneud addasiadau a chreu mannau mwy synhwyraidd-gyfeillgar.

**Gwnaethon ni:** Cynnwys ymrwymiad i ddatblygu amgylcheddau ysgol ledled Caerdydd sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

**Dwedoch chi:** Dylai fod gwell cefnogaeth ac addasiadau i bobl niwrowahanol yn y gweithle.

**Gwnaethon ni:** Ychwanegu ymrwymiad gan Gyngor Caerdydd i greu 'Canllaw i Niwrowahaniaeth yn y gweithle' sy'n darparu arweiniad clir i bob rheolwr ar addasiadau a chamau y dylent fod yn eu cymryd i greu gweithlu mwy cynhwysol ac amrywiol.

## Nod Allweddol 3:

**Dwedoch chi:** Mae angen gwell mynediad at wybodaeth iechyd a lles ar unigolion, teuluoedd a chefnogwyr niwrowahanol.

**Gwnaethon ni:** Ymrwymo i sefydlu Pwyntiau Gwybodaeth Lles Niwrowahaniaeth mewn Hybiau a Llyfrgelloedd ac Ysbytai ledled Caerdydd.

**Dwedoch chi:** Gallai pobl niwroamrywiol sy'n byw yng Nghaerdydd elwa o wybodaeth a chyngor mwy hygyrch ar ailgylchu a rheoli gwastraff.

**Gwnaethon ni:** Ychwanegu ymrwymiad i ddatblygu canllawiau Gwastraff ac Ailgylchu Hawdd eu Deall a chynnig rhagor o gymorth i'r rhai sydd ei angen.

## Nod Allweddol 4:

**Dwedoch chi:** Mae angen mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd sefydliadau llawr gwlad wrth gefnogi'r gymuned niwrowahanol yng Nghaerdydd.

**Gwnaethon ni:** Cynnwys ymrwymiadau gan Gyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) i gefnogi'r trydydd sector i sefydlu Grŵp Gweithredu Niwrowahaniaeth a chryfhau'r berthynas rhwng y trydydd sector a sefydliadau statudol.

## Nod Allweddol 6:

**Dwedoch chi:** Byddai'n dda clywed am ddatblygiadau tai sy'n ystyried pobl Niwrowahanol.

**Gwnaethon ni:** Ychwanegu ymrwymiad i ddatblygu darpariaeth tai â chymorth arbenigol i oedolion ag awtistiaeth ac Anableddau Dysgu.

## Monitro Cynnydd

**Dwedoch chi:** Dylai fod mwy o dryloywder ynghylch sut y bydd y strategaeth a'i gweithredoedd yn cael eu monitro.

**Gwnaethon ni:** Ychwanegu adran sy'n glir am y camau y byddwn yn eu cymryd i fonitro cynnydd a gweithio gyda phartneriaid dros y cyfnod o 5 mlynedd..

Rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned niwrowahanol, a datblygwyd y strategaeth hon gyda'r uchelgais o'i gweld yn cael ei siapio gan bobl sydd â phrofiad bywyd. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi helpu drwy ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw a'r newidiadau yr hoffent eu gweld yng Nghaerdydd. Mae cynnwys newydd sydd wedi'i ychwanegu at y strategaeth yn dilyn y sylwadau a wnaed yn ystod yr ymgynghoriad wedi'i gynnwys ar ddechrau pob Nod Allweddol a'i **uwcholeuod.**

# Gweledigaeth

" Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a gwneud Caerdydd yn rhywle lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu cefnogi i fyw'n dda a ffynnu "

# Nod Allweddol 1:



## Cael eich cynnwys a bod yn rhan o'ch cymuned

Profwyd bod y cyfle i ffurfio cysylltiadau cymdeithasol yn gwella lles ac yn helpu pobl i deimlo ymdeimlad o bwrpas. Mae cael eu cynnwys a bod yn rhan o'u cymuned yn helpu unigolion i wneud cysylltiadau a chael cefnogaeth emosiynol. Gall pobl sy'n niwrowahanol neu sydd â nodweddion niwrowahanol ei chael hi'n anodd gwneud cysylltiadau cymdeithasol oherwydd gwahaniaethau o ran sut maen nhw'n profi'r byd a diffyg dealltwriaeth

Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd lle mae pobl niwrowahanol a theuluoedd yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau i wella lles a chyfoethogi eu bywydau.

**" Mae angen i ni gael mwy o gyfleoedd i ddod â phobl niwrowahanol at ei gilydd fel bod pobl yn teimlo'n gyfforddus a'u bod nhw'n gallu bod yn nhw eu hunain yn llwyr. "**

**" Mae angen i ni feithrin cymunedau lle gall unigolion gysylltu ag eraill sydd â phrofiadau tebyg. "**



## Gwasanaeth Lles Caerdydd

Yn ystod yr ymgynghoriad cododd sawl person y diffyg grwpiau i gefnogi oedolion niwrowahanol hŷn gan siarad am ynysu cymdeithasol a'r stigma yr oeddent wedi'i brofi yn ogystal â'r effaith y mae hyn yn ei gael ar eu lles. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Lles wedi ymrwymo i weithio gyda chymunedau i adeiladu grwpiau cyfoedion sy'n darparu lle diogel i gysylltu a rhannu profiadau a byddant yn gweithio i ddiwallu'r angen hwn.

**Byddwn yn** gweithio gyda phobl niwrowahanol hŷn i ddatblygu grwpiau sy'n cefnogi eu lles.

## The Aloud Charity



Image provided by The Aloud Charity

Nododd yr ymgynghoriad y dylai'r strategaeth adlewyrchu'r gwahanol ddiddordebau a chynnwys mwy o bartneriaid yn y celfyddydau. Mae The Aloud Charity yn elusen sy'n trawsnewid bywydau pobl ifanc trwy gân. Mewn sesiynau cymunedol wythnosol maent yn gweithio gyda phobl ifanc o flynyddoedd ysgol 5-13 trwy gyfres o gorau a gweithgareddau corawl gan ddatblygu hyder, lles a chysylltiad cymdeithasol.  Mae eu sesiynau wythnosol yn cael eu rhedeg gan weithwyr cerddoriaeth proffesiynol hyfforddedig ochr yn ochr â gwirfoddolwyr cymunedol sy'n cefnogi elfennau bugeiliol y gwaith, gan eu galluogi i greu mannau diogel lle gall pobl ifanc fod yn driw iddyn nhw eu hunain heb gael eu barnu.

**Byddwn yn** cynnig gwasanaeth sy'n deall niwrowahaniaeth, gan deilwra gwybodaeth ac adnoddau i weddu i anghenion ein cyfranogwyr, ein staff a'n gwirfoddolwyr.

**Byddwn yn** darparu gwybodaeth hygyrch ar ein gwefan i gefnogi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig i unigolion niwrowahanol.

**Byddwn yn** rhoi gwybodaeth ar ein porth aelodau i gefnogi'r rhai sydd â niwrowahaniaeth i gael mynediad at gyngor a chefnogaeth ychwanegol y tu hwnt i'n gwasanaethau.

**Byddwn yn** gwrando'n weithredol ar bobl ifanc a'u teuluoedd i wneud ein gwaith yn fwy hygyrch.

**Byddwn yn** darparu hyfforddiant i gefnogi staff a gwirfoddolwyr i ddatblygu hyder wrth ddarparu mannau diogel a hygyrch i'r rhai sydd â niwrowahaniaeth.

## Gwasanaeth Parciau Caerdydd



Trwy'r ymgynghoriad dywedodd llawer o bobl, i'w galluogi i fod yn rhan o'u cymuned, fod angen gwneud mwy i wneud mannau ac amgylcheddau yn fwy hygyrch i bobl niwrowahanol. Mae chwarae yn elfen sylfaenol o ddatblygiad personol, gan gefnogi twf corfforol, cymdeithasol ac emosiynol. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd chwarae hygyrch i ddiwallu anghenion a gofynion ein cymunedau.

Mae cyfleoedd chwarae hygyrch yn cyfrannu at les pob plentyn ac o fudd i ofalwyr, oedolion hŷn, a'r gymuned ehangach trwy feithrin amgylcheddau cynhwysol, tra'n gwella cynhwysiant cymdeithasol a mynediad teg.

Mae tîm Parciau Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i wella meysydd chwarae yn barhaus ac eisoes wedi bodloni sawl cais cymunedol i addasu cyfleusterau chwarae i sicrhau y gall plant ag anableddau gael mynediad at gyfleoedd chwarae. Mae'r addasiadau hyd yma wedi cynnwys seddi siglen a llithrennau lled dwbl cynhwysol sy'n ddefnyddiol i blant sydd â heriau symudedd.

**Byddwn yn** cydnabod hawl pob plentyn i chwarae ac yn parhau i fod yn ymrwymedig i ymgynghori â'r gymuned a mynd i'r afael â cheisiadau mynediad penodol lle bynnag y bo modd.

## Gwasanaeth Lles Caerdydd

Nod Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd yw gwella iechyd a lles drwy helpu pobl i fod yn fwy actif a chymryd rhan yn eu cymuned. Mae'r gwasanaeth yn cynnig mentora un-i-un byrdymor i'r rhai sydd ei angen ac yn helpu pobl i gael mynediad at y cymorth cywir.

Gwasanaeth Cymorth Lles Caerdydd
Cardiff Wellbeing Support Service




Mae Gwasanaeth Lles Caerdydd yn recriwtio gwirfoddolwyr i gefnogi'r gwaith o gynnal grwpiau cymdeithasol a lles sydd ar gael i bawb mewn Hybiau a Llyfrgelloedd ar draws y ddinas.

Yn ddiweddar, lansiwyd grŵp cymunedol ADCG i oedolion mewn partneriaeth â'r Rhwydwaith Niwro, lle gall pobl sydd ag ADCG feithrin cysylltiadau a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd. Bydd swyddogion ymroddedig yn ymgysylltu â phobl niwrowahanol a gofalwyr di-dâl i gael gwybod pa grwpiau eraill y byddai ganddynt ddiddordeb ynddynt.

**Byddwn yn** cynyddu ymwybyddiaeth o/argaeledd gweithgareddau cynhwysol y gall pobl niwrowahanol a'u teuluoedd gymryd rhan ynddynt.

**Byddwn yn** ymchwilio, yn datblygu ac yn cyflwyno sesiynau dan arweiniad gwirfoddolwyr gyda'r nod o greu gofod cefnogol i'r rhai sy'n niwrowahanol.

## Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd

CARDIFF YOUTH SERVICE
GWASANAETH IEUENCTID CAERDYDD

Mae Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd wedi ymrwymo i gynnig darpariaeth o weithgareddau cynhwysol i blant a phobl ifanc niwrowahanol. Mae grwpiau cynhwysol Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd wedi cael eu creu ar y cyd gydag ac ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus mewn lleoliadau clwb ieuenctid mynediad agored. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi lle diogel i bobl ifanc lle gallant ymlacio, cael hwyl, dysgu a chymdeithasu â phobl ifanc y gallant uniaethu â nhw ac sydd â phrofiadau tebyg iddyn nhw.



**Byddwn yn** ymgynghori â phobl ifanc i greu grwpiau a gweithgareddau cynhwysol sy'n cael eu harwain gan anghenion ar draws pob un o'n hardaloedd, gan ehangu ein darpariaeth ar gyfer pobl ifanc niwrowahanol yng Nghaerdydd.

**Byddwn ymdrechu** i recriwtio staff sydd â phrofiad byw a chynnig cymorth a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol staff.

**Byddwn yn** cynnig cyfleoedd i bobl ifanc a gwirfoddolwyr niwrowahanol feithrin sgiliau a chael profiadau o waith.

**Byddwn yn** uwchsgilio'r tîm staff ac yn darparu adnoddau i gefnogi staff i gynnig Darpariaeth Ieuenctid Gynhwysol hygyrch ar draws y ddinas.

## Cymdeithas Dyslecsia Prydain

Cymdeithas Dyslecsia Prydain yw'r brif elusen dyslecsia genedlaethol, sy'n hyrwyddo cymdeithas sy'n deall dyslecsia. Bydd prosiect newydd yn dod â Hybiau Dyslecsia Lleol (a fydd yn gymunedau yn hytrach na lleoedd) i Gaerdydd. Bydd datblygu'r cymunedau hyn yn helpu pobl i gysylltu ag eraill sydd â phrofiadau tebyg yn eu hardal leol. Nod y prosiect yw hysbysu, cefnogi a grymuso plant ac oedolion â dyslecsia neu ddyscalcwlia posibl, neu anawsterau llythrennedd a mathemateg, gan eu bod yn cydnabod bod llawer o bobl heb gael diagnosis. Bydd y prosiect hefyd yn cefnogi'r rhai sy'n gofalu am bobl â dyslecsia neu ddyscalcwlia.

**" Mae Hyb Dyslecsia Lleol yn canolbwyntio ar y bobl! "**

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth drwy brosiect Hyb Dyslecsia De Cymru i ddarparu cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad byw o ddyslecsia a dyscalcwlia ddod at ei gilydd, meithrin cysylltiadau cymdeithasol a dysgu am strategaethau ymarferol.

**Byddwn yn** darparu cymorth lleol i'r rhai sy'n byw gyda dyslecsia a dyscalcwlia yng Nghaerdydd drwy waith allgymorth gan wirfoddolwyr Hyb Dyslecsia De Cymru.

## ACE

Dechreuodd Prosiect Ymbarél ACE ym mis Mawrth 2023 ac mae'n darparu cymorth cyfoedion i rieni a theuluoedd sydd ag amheuaeth neu ddiagnosis o niwrowahaniaeth. Mae'r grŵp yn cwrdd bob wythnos ac yn cynnal gweithdai ar wahanol bynciau sy'n ymwneud â niwrowahaniaeth ac yn cymryd rhan mewn chwarae synhwyraidd gyda phlant.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o'r Prosiect Ymbarél trwy ddarparu allgymorth i ysgolion a gweithio mewn partneriaeth.

## Autism Spectrum Connections Cymru (ASC Cymru)

Mae ASC Cymru yn darparu cymorth i unigolion 16 oed a hŷn o fewn Byrddau Iechyd Caerdydd a'r Fro ac Aneurin Bevan sydd wedi cael diagnosis o awtistiaeth. Maent yn cynnig cymorth gyda budd-daliadau lles, gwasanaeth i mewn i waith a chymorth cyfyngedig yn y gwaith, ac yn cynnal grwpiau gweithgareddau yng Nghaerdydd. Mae sesiwn galw heibio gymdeithasol yn cael ei chynnal bob dydd Mawrth rhwng 1 a 5pm, lle nad oes angen cadw lle ymlaen llaw. Yn ystod y cyfnod hwn, mae yna wahanol weithgareddau y gall pobl gymryd rhan ynddynt yn dibynnu ar eu hwyliau a'u diddordebau, megis defnyddio'r bwrdd pŵl, consolau gemau, cyfrifiaduron, gemau bwrdd, pêl-droed bwrdd, neu dim ond ymlacio a chael sgwrs. Mae grwpiau eraill yn cynnwys grŵp ysgrifennu creadigol, clwb celf a chrefft, a 'Dungeons and Dragons'.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o'r sesiynau galw heibio cymdeithasol ar gyfer oedolion awtistig a gweithgareddau eraill y gallai fod ganddynt ddiddordeb ynddynt drwy weithio gyda phartneriaid i rannu'r wybodaeth.

## Ffrindiau Gigiau

Mae Ffrindiau Gigiau yn brosiect gan yr elusen Stay up Late, sy'n ymroddedig i helpu pobl â niwrowahaniaeth neu anableddau dysgu i oresgyn unigrwydd a byw'r bywydau maen nhw am eu byw. Mae Ffrindiau Gigiau yn paru unigolion â gwirfoddolwyr sy'n rhannu'r un diddordebau â nhw, boed yn gerddoriaeth, chwaraeon, diwylliant, bwyta allan, mwynhau natur, neu unrhyw weithgaredd arall maen nhw'n ei ddewis.

## Gwasanaethau Chwarae Cynhwysol

Mae Gwasanaethau Chwarae Plant Cyngor Caerdydd wedi cyflwyno mesurau i sicrhau bod gwasanaethau chwarae yn gynhwysol a bod anghenion plant niwrowahanol a'u teuluoedd yn cael eu hystyried. Maent yn cynnal 'Sesiynau Chwarae Hamddenol' sydd â'r nod o ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc niwrowahanol. Y pwrpas yw cynyddu'r cyfleoedd chwarae i blant niwrowahanol.

Mae'r tîm yn cymryd camau i wneud sesiynau eraill yn fwy cynhwysol, megis darparu gwybodaeth a lluniau cywir o'r lleoliadau y caiff sesiynau eu cynnal ynddynt ledled Caerdydd.

**Byddwn yn** cynnig 'sesiynau hamddenol' i blant a phobl ifanc niwrowahanol a'u teuluoedd, a fyddai'n ffafrio sesiynau tawelach.

**Byddwn yn** darparu sesiynau pwrpasol i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymorth uwch.

**Byddwn yn** addasu ein sesiynau mynediad agored i ddiwallu anghenion plant niwrowahanol sy'n mynychu yn well.

**Byddwn yn** gweithio gyda rhieni a gofalwyr i nodi pa sesiynau sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion a diddordebau eu plant ac er mwyn i ni allu darparu'r cymorth chwarae priodol.

**Byddwn yn** darparu gwybodaeth fwy cywir i blant a phobl ifanc sy'n mynychu ein sesiynau hamddenol, gan gynnwys lluniau o ble mae'r gweithgareddau yn digwydd a beth sydd ei angen i wella hygyrchedd.

## Llesiant Rhieni Sengl



Mae Llesiant Rhieni Sengl yn grŵp a arweinir gan gyfoedion sy'n cael ei redeg gan rieni sengl ar gyfer teuluoedd rhiant sengl yng Nghymru. Eu nod yw lleihau unigrwydd ac allgáu trwy gynnal digwyddiadau, sesiynau cymdeithasol a gweithdai a arweinir gan gyfoedion.

Mae Llesiant Rhieni Sengl wedi ymrwymo i greu amgylcheddau croesawgar sy'n ystyriol o niwrowahaniaeth. Mae pob un o'u digwyddiadau cymunedol 'Big Meet Up' yn cynnwys gofod synhwyraidd ac ardaloedd tawel. Maent yn cynnal sgyrsiau cynhwysol sy'n galluogi aelodau'r gymuned i siarad am wahanol bynciau amrywiaeth, gan gynnwys niwrowahaniaeth, ac maent yn y broses o sefydlu cylch niwrowahanol yn y sefydliad, wedi'i redeg gan wirfoddolwyr ar gyfer oedolion a phlant niwrowahanol.

**Byddwn bob** amser yn ystyried hygyrchedd y lleoliadau y caiff digwyddiadau cymunedol eu cynnal ynddynt, gan gynnwys ar gyfer gwahanol anghenion synhwyraidd.

**Byddwn yn** annog dysgu actif yn ein digwyddiadau ieuenctid a chymdeithasol i weddu i arddulliau dysgu amgen.

**Byddwn yn** gweithio gyda'n gwirfoddolwyr niwrowahanol o bob oedran i gyd-gynhyrchu gwahanol weithgareddau i deuluoedd niwrowahanol yng Nghaerdydd.

**Byddwn yn** ystyried cyfleoedd i gynnal sesiynau hamddenol a fydd ar gael i deuluoedd niwrowahanol.

## Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd

Mae Hybiau Cymunedol Caerdydd wedi'u lleoli ar draws y ddinas, gan ddarparu ystod o wasanaethau Cyngor a gwasanaethau partner i gymunedau lleol. Mae ystod eang o weithgareddau ar gael, gan gynnwys grwpiau cymdeithasol i oedolion hŷn, grwpiau celf a chrefft, grwpiau i bobl â chyflyrau iechyd hirdymor a grwpiau i blant. Rydym am sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau hyn yn hygyrch i unigolion niwrowahanol, gofalwyr ac aelodau o'r teulu. Rydym yn cydnabod bod angen cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau mewn amgylchedd hamddenol.

The Yr hub



Mae adborth gan bobl sy'n defnyddio ein hybiau a'n llyfrgelloedd wedi arwain at ddatblygu 'Grŵp Lego Hamddenol' peilot, a lansiwyd yn Hyb y Tyllgoed. Nod y grŵp hwn yw neilltuo amser penodol i deuluoedd niwrowahanol gael mynediad i'r Clwb Lego ar adeg dawelach, gyda gwirfoddolwr sydd wedi derbyn hyfforddiant niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** cyflwyno ac yn gwerthuso'r 'Grŵp Lego Hamddenol' peilot yn Hyb y Tyllgoed ac yn archwilio sut y gellid ehangu hyn i Hybiau eraill yng Nghaerdydd.

## Chwaraeon Met Caerdydd

Chwaraeon Met Caerdydd
Cardiff Met Sport

Mae Chwaraeon Met Caerdydd, gan weithio gyda Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, yn arwain y gwaith o ddatblygu Symud Mwy – Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon ar gyfer Caerdydd. Bwriad y strategaeth yw gwneud Caerdydd y ddinas fwyaf corfforol actif yn y DU. Eu nod yw gwneud gweithgarwch corfforol yn fwy hygyrch a chynhwysol ledled y ddinas, gyda sylw arbennig i'r ardaloedd sydd â'r angen mwyaf a chymunedau sy'n wynebu rhwystrau i gyfranogiad. Mae Chwaraeon Met Caerdydd yn arbennig o ymrwymedig i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o niwrowahaniaeth yn ein cymunedau ac ymhlith eu staff.

**Byddwn yn** cyfeirio pobl at sesiynau a chlybiau y nodwyd eu bod yn 'ymwybodol o niwrowahaniaeth', gan fodloni meini prawf penodol i helpu unigolion i ddod o hyd i amgylcheddau croesawgar a chynhwysol.

**Byddwn yn** cynnig sesiynau pwrpasol i bobl ifanc niwrowahanol a'u teuluoedd, gan roi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol gyda'i gilydd ar draws Caerdydd.

**Byddwn yn** gwella hyfforddiant staff i sicrhau bod yr holl ddeunyddiau brandio a hyrwyddo yn gynhwysol, gyda delweddau, iaith a lliwiau priodol.

## Chwaraeon Anabledd Cymru

Mae Chwaraeon Anabledd Cymru yn gweithio ledled Cymru i wneud chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn fwy hygyrch i aelodau anabl a niwrowahanol o'r gymuned. Maent wedi creu cysylltiadau cryf â Chwaraeon Anabledd Cymru yng Nghaerdydd i hyrwyddo gweithgareddau cynhwysol ac annog pob clwb chwaraeon a darparwr gweithgareddau yng Nghaerdydd i wneud mwy i gefnogi athletwyr niwrowahanol. Fel rhan o'u gwaith, mae Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Niwrowahaniaeth Cymru i addasu gweithdy hyfforddi sydd ar gael i glybiau chwaraeon a chyfleusterau ledled Cymru i wella dealltwriaeth a chefnogaeth i unigolion niwrowahanol sy'n defnyddio eu gwasanaethau.



**Byddwn yn** hyrwyddo adnoddau a hyfforddiant Niwrowahaniaeth Chwaraeon Anabledd Cymru i sefydliadau partner a rhanddeiliaid.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i ymgynghori â darparwyr chwaraeon ledled Caerdydd i ddeall lefelau ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth ar hyn o bryd a gweithio gyda nhw i fynd i'r afael â rhwystrau.

**Byddwn yn** parhau i ddatblygu adnoddau a hyfforddiant Niwrowahaniaeth i mewn i'r llwybrau cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol cynhwysol (InSport).

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o gynllun achredu InSport, gan annog clybiau i gofrestru a chyfeirio pobl yng Nghaerdydd at glybiau cynhwysol lleol.

**Byddwn yn** parhau i weithio gyda phartneriaid addysgol i gynnig cyfleoedd i blant â niwrowahaniaeth ac anableddau gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

## Sefydliad Cymunedol Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd

Mae Sefydliad Cymunedol CPD Dinas Caerdydd wedi ymrwymo i gynhwysiant a chreu cyfleoedd i bawb drwy bêl-droed. Maen nhw'n darparu rhaglenni pêl-droed cynhwysol sydd wedi'u cynllunio i fod o fudd i unigolion niwrowahanol drwy gryfhau bondiau cymdeithasol, gwella lles meddyliol a chorfforol, a hyrwyddo ymdeimlad o berthyn yn y gymuned.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen Kicks gynhwysol sydd wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau er mwyn darparu gofod cefnogol i ddysgu, tyfu a chysylltu â chyfoedion.

**Byddwn yn** darparu hyfforddiant niwrowahaniaeth i hyfforddwyr i'w galluogi i greu sesiynau niwrogadarnhaol a chynhwysol.

**Byddwn yn** hyrwyddo a hwyluso diwrnodau gêm sy'n ystyriol o'r synhwyrau gyda mannau pwrpasol lle gall unigolion niwrowahanol fwynhau pêl-droed mewn amgylchedd cyfforddus, wedi ei reoli.

**Byddwn yn** cynnig cyfleoedd i deuluoedd niwrowahanol ddefnyddio'r ystafell synhwyraidd a'r cyfleusterau y tu allan i ddiwrnodau gêm.





## Nod Allweddol 2:

### Cyflawni eich nodau mewn addysg a chyflogaeth



Mae canlyniadau addysgol a chyflogaeth yn cael effaith sylweddol ar les a'r ymdeimlad o hunan. Daeth yn amlwg yn ein gwaith ymgysylltu pa mor bwysig yw rhoi cyfle cyfartal i bawb ffynnu mewn addysg a chyflogaeth er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial.

Mae cofleidio niwrowahaniaeth mewn addysg a chyflogaeth yn denu unigolion â sgiliau a thalent sylweddol.

Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd sy'n deall pobl niwrowahanol yn well, lle maen nhw'n cael eu cefnogi'n well drwy addysg ac yn cael eu helpu i gyrraedd eu nodau, gan gynnwys dod o hyd i waith ac annog cyflogwyr i greu amgylcheddau gwaith sy'n diwallu eu hanghenion.

**"Nid yw addysg ffurfiol i bawb – i rywun sy'n niwrowahanol gall fod fel ffitio peg sgwâr mewn twll crwn"**

**"Doeddwn i ddim yn teimlo fy mod yn cael fy neall nac yn ddiogel yn yr ysgol. Doedden nhw ddim yn deall fy ngwahaniaethau"**

**"Mae angen gwerthfawrogi pob cyfraniad a chryfderau a sgiliau unigolion"**

**"Rydw i wedi gadael swyddi gan nad yw pobl yn deall fy arddulliau cyfathrebu, fy arddulliau dysgu ac iaith fy nghorff"**

## Dylunio Ysgolion Cynhwysol



Roedd llawer o sylwadau o'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith bod angen mwy o ffocws ar wella amgylcheddau ysgol i'w gwneud yn fwy hygyrch a chreu mannau dysgu cynhwysol. Mae gwaith yn cael ei wneud ledled Caerdydd i wella amgylcheddau ysgolion fel rhan o ymrwymiad y ddinas i addysg gynhwysol, gan gynnwys Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) newydd sbon sydd wedi agor yn swyddogol yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach yn Rhiwbeina, Gogledd Caerdydd. Bydd y cyfleuster pwrpasol, a adeiladwyd gan Knox & Wells, yn darparu lleoedd mawr eu hangen i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth, gan helpu Caerdydd i fynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth arbenigol.

Wedi'i ariannu gan raglen Band B Llywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth rhaglen gyfalaf y Cyngor, mae'r datblygiad gwerth £4.4m o'r enw Dosbarth Enfys yn cynnig amgylchedd meithringar, cwbl integredig lle mae amrywiaeth yn cael ei ddathlu a phob plentyn yn cael ei gefnogi i ffynnu. Mae'r ddarpariaeth newydd yn cynnwys dodrefn wedi'u cynllunio'n arbennig, ystafelloedd synhwyraidd a chyfarpar corfforol-synhwyraidd sy'n cynnig mannau diogel a thawel ar gyfer rheoleiddio. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i ateb y galw cynyddol am leoliadau arbenigol ar gyfer dysgwyr oedran cynradd ac uwchradd. Trwy ystod o gynlluniau cynhwysfawr, rydym yn parhau i ddarparu rhagor o leoedd ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu cymhleth, cyflyrau'r sbectrwm awtistiaeth ac anghenion iechyd a lles emosiynol.

**Byddwn yn** gweithio i ddatblygu amgylcheddau ysgol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr.

## Ymgorffori Strategaeth Cynhwysiant Caerdydd mewn Addysg Niwrowahanol

Mae dull Caerdydd o greu system addysg sy'n deall niwrowahaniaeth yn cyd-fynd yn llawn â Strategaeth Cynhwysiant Caerdydd (2025), sy'n nodi gweledigaeth glir:

> **" Mae pob plentyn a pherson ifanc yn perthyn ac yn llwyddo mewn addysg. "**

Mae'r cynllun hwn yn adeiladu ar bum maes gweithredu'r Strategaeth Cynhwysiant, gan sicrhau bod dysgwyr niwrowahanol yn elwa o'r un ymrwymiad i berthyn, tegwch a llwyddiant:

» **Ymarfer Cynhwysol a Pherthyn**

Mae ein camau gweithredu yn adlewyrchu pwyslais y Strategaeth Cynhwysiant ar ymgorffori arferion cynhwysol ar draws pob ysgol. Bydd Fframwaith Cynhwysiant Caerdydd, sydd ar ddod, yn darparu meincnod ledled y ddinas ar gyfer addysgeg gynhwysol, gan ymgorffori mentrau fel Ysgolion sy'n Parchu Hawliau, Ysgolion Noddfa, a Dulliau Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Lles. Bydd arferion sy'n deall niwrowahaniaeth yn rhan annatod o'r fframwaith hwn.

» **Addysgu Addasol a Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (DCD)**

Yn unol â Maes Gweithredu 4: Diwallu Anghenion POB Dysgwr, byddwn yn cryfhau dulliau addysgu addasol ac yn hyrwyddo egwyddorion DCD i sicrhau y gall dysgwyr niwrowahanol gael mynediad i'r cwricwlwm a ffynnu mewn lleoliadau prif ffrwd lle bynnag y bo modd.

» **Continwwm y Ddarpariaeth**

Mae'r Strategaeth Cynhwysiant yn ymrwymo i ehangu Canolfannau Adnoddau Arbenigol (CAAau) a gwella llwybrau rhwng darpariaeth brif ffrwd ac arbenigol. Mae'r cynllun hwn yn ategu'r uchelgais honno trwy sicrhau bod dysgwyr niwrowahanol yn cael mynediad amserol at gymorth ac amgylcheddau priodol, gan leihau dibyniaeth ar Addysg Ddewisol yn y Cartref a Chynlluniau Cymorth Bugeiliol hirdymor.

» **Datblygu'r Gweithlu**

Mae cefnogi dysgwyr niwrowahanol yn gofyn am staff medrus a hyderus. Bydd ein rhaglen hyfforddi yn cyd-fynd â Maes Gweithredu 5: Cefnogi a Chryfhau Ein

Gweithlu, gam ymgorfforі ymarfer sy'n ystyriol o drawma a dulliau cynhwysol ar draws pob ysgol. Bydd dysgu proffesiynol yn cynnwys strategaethau ar gyfer deall niwrowahaniaeth a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol fel cyfathrebu.

» **Monitro ac Atebolrwydd**

Bydd cynnydd yn cael ei dracio drwy'r mecanweithiau a nodir yn y Strategaeth Cynhwysiant, gan gynnwys Bwrdd Cynhwysiant Caerdydd a'r cynllun gweithredu dinas-gyfan. Mae hyn yn sicrhau nad yw cynhwysiant niwrowahanol yn fenter annibynnol ond yn rhan o gyfrifoldeb cyfunol Caerdydd am degwch a pherthyn.

Drwy gysylltu'r cynllun hwn yn benodol â'r Strategaeth Cynhwysiant, rydym yn sicrhau cydlyniad, atebolrwydd a rennir, a dull unedig o wneud system addysg Caerdydd yn gynhwysol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sy'n niwrowahanol.

**Byddwn yn** datblygu Fframwaith Cynhwysiant Caerdydd sy'n nodi disgwyliadau ar gyfer ymarfer cynhwysol, gan adeiladu ar fentrau fel Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ac Ysgolion Noddfa.

**Byddwn yn** ymgorffori cynllunio cydweithredol rhwng y Gwasanaethau Cynhwysiant ac ysgolion fel bod gwella ysgolion a chynhwysiant yn cael eu hintegreiddio'n llawn.

**Byddwn yn** sicrhau bod ysgolion yn defnyddio offer sgrinio ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac yn ymateb gyda strategaethau sy'n cefnogi ymgysylltu ac yn lleihau ymddygiad heriol.

**Byddwn yn** gwneud darllen yn flaenoriaeth trwy gyflwyno dysgu proffesiynol i gryfhau addysgu darllen i bawb o bob oedran a gallu.

**Byddwn yn** cryfhau dealltwriaeth a defnydd o ddulliau addysgu addasol fel y gall addysgwyr ddiwallu anghenion pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Byddwn yn** cyflwyno Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma ym mhob ysgol ac ymgorffori dulliau ysgol gyfan i greu amgylcheddau diogel, meithringar.

## Tîm Cynhwysiant Addysg



Nod y Gwasanaeth Cynhwysiant yw galluogi ysgolion i nodi a diwallu anghenion pob dysgwr niwrowahanol, p'un a oes diagnosis ai peidio, gan fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau i ddysgu. Mae'r tîm cynhwysiant addysg yn cynnig gwasanaethau, hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer iaith, lleferydd a chyfathrebu; a chamreoleiddio synhwyraidd ac emosiynol.

Maent yn gweithio gydag ysgolion ar draws Caerdydd i gynnig cyngor ac arweiniad ar addasiadau rhesymol effeithiol i ddysgwyr sydd ag anableddau. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn ymdrechu i sicrhau bod ysgolion a lleoliadau wedi'u paratoi i adnabod a chefnogi dysgwyr a allai fod yn niwrowahanol, p'un a oes diagnosis ganddynt ai peidio.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth â phob ysgol yng Nghaerdydd i gyflwyno fframwaith sy'n ymgorffori arfer gorau ar gyfer dysgu niwrowahanol.

**Byddwn yn** cynnig cyfleoedd hyfforddi i athrawon yng Nghaerdydd i wella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth ac amgylcheddau ysgol.

**Byddwn yn** cynnal cynadleddau a fforymau gydag Ysgolion Caerdydd i godi ymwybyddiaeth o amgylcheddau ysgolion cynhwysol ar gyfer dysgwyr niwrowahanol.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth â'r tîm cwricwlwm i ymgorffori gwybodaeth am niwrowahaniaeth a chynhwysiant anabledd ar draws ysgolion yng Nghaerdydd.

## Ysgolion Bro

Mae'r Rhaglen Ysgolion Bro yn cefnogi ysgolion i adeiladu partneriaethau cryf gyda theuluoedd, ymateb i anghenion eu cymuned a chydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill.  Mae ffocws cryf ar anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd y dysgwyr i gyd yn ogystal ag ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned ehangach. Trwy'r model ysgolion bro, gallwn rannu gwybodaeth am




Our model for Community Focused Schools

wasanaethau niwrowahaniaeth i blant a theuluoedd yn uniongyrchol â'r ysgol i'w rhannu gyda phobl ifanc a theuluoedd ledled Caerdydd.

**Byddwn yn** rhannu gwybodaeth am wasanaethau niwrowahaniaeth a chyfleoedd y gall pobl ifanc a theuluoedd gael mynediad atynt drwy'r ysgolion.

**Byddwn yn** cefnogi ysgolion trwy weithio gyda phartneriaid i ddiwallu anghenion teuluoedd niwrowahanol.

**Byddwn yn** treialu rhaglen hyrwyddwyr rhieni gyda'r nod o rymuso rhieni i rannu gwybodaeth gydag aelodau eraill o'r gymuned am wasanaethau y gall y gymuned eu cynnig.

## Tîm Cwricwlwm Addysg

Mae Tîm Cwricwlwm Caerdydd yn gweithio gydag ysgolion ledled y ddinas i gefnogi'r gwaith o ddatblygu profiadau dysgu cyfoethog, eang a chynhwysol sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Tîm Cwricwlwm wedi datblygu, hyrwyddo a chefnogi cyfleoedd cyfoethogi wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr niwrowahanol a dysgwyr ag ADY ar draws yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae eu Gŵyl Theatr Celfyddydau Mynegiannol flynyddol wedi esblygu i gynnwys darpariaeth benodol ar gyfer dysgwyr niwrowahanol sy'n cael eu haddysgu gartref. Cafodd y rhaglen ei theilwra'n ofalus i ddiwallu eu hanghenion synhwyraidd a chyfathrebu wrth ddarparu mynediad at brofiadau creadigol o ansawdd uchel.

Mae'r Tîm Cwricwlwm wedi ymrwymo i ymgorffori ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth yn fwy penodol yn y cymorth maen nhw'n ei gynnig.

**Byddwn yn** rhannu adnoddau ac arfer gorau ar addysgu cynhwysol ag ysgolion ledled Caerdydd.

**Byddwn yn** ymgorffori egwyddorion Dylunio Cyffredinol ar gyfer Dysgu (DCD) sy'n anelu at greu amgylcheddau dysgu hyblyg.

**Byddwn yn** archwilio cyfleoedd i gydweithredu â phartneriaid yn barhaus a chyfleoedd cyllid i greu a chyflwyno adnodd ymwybyddiaeth niwrowahaniaeth penodol ar gyfer y cwricwlwm.

## Dinas sy'n Dda i Blant

Caerdydd yw'r ddinas gyntaf yn y DU i gael ei chydnabod fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF. Mae dull hawliau plant yn golygu rhoi anghenion a phrofiadau plant niwrowahanol wrth wraidd popeth a wnawn. Mae'n golygu mynd i'r afael â rhwystrau sy'n eu hatal rhag mwynhau eu hawliau'n gyfartal, boed mewn ysgolion, gwasanaethau iechyd, mannau cyhoeddus, neu wrth ddylunio gwasanaethau a gwneud penderfyniadau. Mae hefyd yn golygu gwneud yn siŵr bod eu lleisiau nid yn unig yn cael eu clywed, ond y gweithredir arnynt, fel partneriaid cyfartal mewn newid.

**"Mae gan blant yr hawl i gael eu clywed ac i weld camau'n cael eu cymryd ar sail yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym"**





**Byddwn yn** ceisio gwrando ar leisiau plant a phobl ifanc ar gynhwysiant o fewn addysg ac agweddau pwysig eraill o'u bywydau, gan geisio eu syniadau a'u cyfranogiad a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed mewn sgyrsiau ynghylch niwrowahaniaeth.

## Community Adult Basic Skills:

Mae Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd bellach yn cynnig rhaglenni i oedolion ag anableddau dysgu, trwy garedigrwydd Community Adult Basic Skills (CABS). Sefydlwyd hyn i helpu oedolion i ennill hyder a sgiliau sylfaenol. Maent yn cynnig clybiau dysgu lle gall unigolion ddatblygu sgiliau a hyder mewn amgylchedd cefnogol. Mae dosbarthiadau amrywiol yn gwahodd cyfranogiad a chyfraniad at awyrgylch dysgu cadarnhaol.

**Byddwn yn** cyflwyno CABS-Cardiff i gefnogi pobl â niwrowahaniaeth ac anableddau dysgu i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli a gwaith a'u cadw.

## Tîm Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Caerdydd

Mae Tîm Ehangu Cyfranogiad Prifysgol Caerdydd yn credu y dylai pob myfyriwr, beth bynnag fo'i gefndir neu brofiadau personol, gael cyfle i ffynnu o fewn addysg bellach, ac maen nhw'n gweithio tuag at y nod hwnnw. Mae'r tîm yn dathlu amrywiaeth ac yn ymdrechu i greu cymuned wirioneddol gynhwysol i fyfyrwyr, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r rhwystrau y mae rhai unigolion yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'r brifysgol. Ar hyn o bryd maen nhw'n cynnal y 'Rhaglen Ddarganfod' sy'n cynnig yr adnoddau a'r hyder i bobl ifanc awtistig sy'n ystyried y brifysgol gael profiad o fywyd prifysgol.

**Byddwn yn** parhau i gynnal y 'Rhaglen Ddarganfod', sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc awtistig fynychu gweithdai sydd wedi'u cynllunio i'w helpu i wella eu hyder a'u sgiliau ar gyfer eu dyfodol.

**Byddwn yn** cynnig cyfle i ddarpar fyfyrwyr niwrowahanol a'u cefnogwyr ymweld â'r Brifysgol ar 'Ddiwrnod Ymweliad Tawel'.

**Byddwn yn** darparu mannau tawel yn ystod Diwrnodau Agored, a byddwn wrth law i helpu ymwelwyr niwrowahanol i gynllunio eu dyddiau.

**Byddwn yn** parhau i archwilio ffyrdd eraill o wella mynediad i Addysg Uwch i bobl niwrowahanol.

## Fframwaith Addysg Gynhwysol Prifysgol Caerdydd

Mae Fframwaith Addysg Gynhwysol Prifysgol Caerdydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran profiadau a chanlyniadau eu myfyrwyr oherwydd eu nodweddion a'u cefndiroedd. Yn ganolog i'w dull gweithredu mae eu hymrwymiad i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol trwy newid addysgol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â chael gwared ar rwystrau ac anghydraddoldeb systemig a diwylliannol. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r tîm Addysg Gynhwysol yn cefnogi adrannau i ymgorffori addysg gynhwysol ac yn cynnig pecyn o gefnogaeth a dysgu proffesiynol i ddatblygu arferion addysg gynhwysol.

**Byddwn yn** sicrhau bod staff Prifysgol Caerdydd yn cael mynediad at hyfforddiant ac adnoddau addysg gynhwysol ar niwrowahaniaeth i gefnogi eu gwaith addysgu.

**Byddwn yn** cefnogi staff Prifysgol Caerdydd drwy gynnig hyfforddiant niwrowahaniaeth sy'n ymgorffori barn a phrofiad myfyrwyr o ddysgu ac astudio.

## Addewid Caerdydd



Mae Addewid Caerdydd yn bartneriaeth sy'n dod â sefydliadau a darparwyr addysg at ei gilydd, i gysylltu plant a phobl ifanc â chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael.

Mae gwaith Addewid Caerdydd o ddatblygu llwybrau cyflogaeth gyda chefnogaeth hyblyg (CChH) a hyfforddi cyflogwyr yn ceisio mynd i'r afael â rhwystrau y mae pobl ifanc niwrowahanol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyflogaeth. Mae eu mentrau'n cynnwys darparu cyfleoedd profiad gwaith trwy'r cynllun gwobrau Beth Nesaf a chodi ymwybyddiaeth ymhlith cyflogwyr. Mae gan Addewid Caerdydd rwydwaith mawr ac mae'n darparu gweithdai hyfforddi i gyflogwyr sy'n annog busnesau ar draws Caerdydd i gefnogi pobl niwrowahanol yn y gweithle.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r cynllun llwybrau cefnogaeth hyblyg (CChH) (sy'n ceisio mynd i'r afael â rhwystrau y mae pobl ifanc niwrowahanol yn eu hwynebu wrth gael mynediad at gyflogaeth) ac annog mwy o fusnesau ledled Caerdydd i gynnig hyn.

**Byddwn yn** dylunio ac yn cynnal gweithdai i gyflogwyr yng Nghaerdydd i wella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth yn y gweithle.

**Byddwn yn** diweddaru'r wefan 'Beth Nesaf' i adlewyrchu'n gywir pa gyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc niwrowahanol ddod o hyd i waith yng Nghaerdydd a'u cyfeirio atynt.

# I Mewn i Waith

Mae Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith Cyngor Caerdydd yn darparu pecyn cyflogaeth a sgiliau cyflawn i drigolion Caerdydd sy'n cefnogi pobl sydd allan o waith neu'r rhai sydd eisiau uwchsgilio.

Mae staff y Gwasanaeth i Mewn i Waith wedi derbyn hyfforddiant ar niwrowahaniaeth fel bod ganddynt well dealltwriaeth a'u bod mewn sefyllfa well i ddiwallu anghenion pobl niwrowahanol sy'n defnyddio eu gwasanaeth. Yn ogystal, mae yna brosiect cyflogaeth penodol i gefnogi'r rhai sy'n niwrowahanol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i mewn i waith. Mae'r Prosiect Cyflogaeth Dan Gymorth Lleol (CDGLl) yn cynorthwyo unigolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i gael mynediad at gyflogaeth trwy ddarparu cymorth cymunedol un-i-un, gan helpu i nodi cyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant.



**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Cyflogaeth Dan Gymorth Lleol (CDGLl) i gynyddu nifer yr atgyfeiriadau a nifer y bobl a gefnogir i mewn i waith.

**Byddwn yn** cynnig Gwasanaeth i Mewn i Waith sy'n deall niwrowahaniaeth, gan wneud addasiadau pan fo angen megis dogfennau hawdd eu deall ac 'oriau tawel' yn ystod Ffeiriau Swyddi.

## Amgueddfa Cymru

Mae Amgueddfa Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i bobl niwrowahanol ffynnu yn y gwaith.

Mae'r cynllun Lleoliadau Datblygu Sgiliau yn Amgueddfa Cymru wedi datblygu i gefnogi unigolion niwrowahanol i ennill sgiliau cyflogadwyedd. Mae'r cynllun yn darparu lleoliad chwe mis lle bydd y person yn dysgu sgiliau allweddol sydd eu hangen ar gyfer y gweithle. Mae llawer o hyblygrwydd o fewn y lleoliadau hyn a defnyddir dull sy'n canolbwyntio ar y person.  Mae nifer o'r bobl sydd wedi bod ar y lleoliadau hyn wedi cael swyddi yn yr amgueddfa.

AMGUEDDFA CYMRU



**Byddwn yn** gweithio tuag at greu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol a hygyrch i staff niwrowahanol yn yr Amgueddfa.

**Byddwn yn** creu map synhwyraidd o'r adeilad i gefnogi staff ac ymwelwyr sy'n dod i'r Amgueddfa, gan eu cyfeirio at ardaloedd tawelach.

**Byddwn yn** cyflwyno hyfforddiant ar niwrowahaniaeth i staff ar draws Amgueddfa Cymru er mwyn gwella dealltwriaeth o sut i gefnogi unigolion niwrowahanol yn y gweithle.

## Prosiect SEARCH

Mae'r rhaglen Prosiect SEARCH yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Caerdydd, Addewid Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro i gynnig interniaethau â chymorth i bobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu sy'n niwrowahanol ar draws gwahanol adrannau, gan gynnwys fferylliaeth, arlwyo, y switsfwrdd ac ystadau. Mae'r prosiect hwn yn rhoi



i'r rheini sy'n cymryd rhan y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ffynnu yn y gweithle.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o Brosiect SEARCH a'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl sy'n niwrowahanol ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i gael mynediad at lwybrau cyflogaeth.

## Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru wedi ymrwymo i wella gwasanaethau i gwsmeriaid niwrowahanol a'u nod yw sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda. Ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd Gyrfa Cymru Caerdydd eu ffair swyddi gynhwysol gyntaf yn eu swyddfa yng Nghaerdydd gyda'r nod o ddathlu niwrowahaniaeth. Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys cyflogwyr, sefydliadau cymorth a darparwyr hyfforddiant sy'n ymroddedig i gynhwysiant. Trwy gyflwyno'r mentrau hyn, nod Gyrfa Cymru yw annog a chefnogi unigolion niwrowahanol i ymdrechu i gyflawni eu nodau gyrfaol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth werthfawr y gallant fanteisio arni.








**Byddwn yn** gweithio tuag at greu gwasanaeth mwy hygyrch i unigolion niwrowahanol trwy wneud addasiadau angenrheidiol fel cynnig cymhorthion gweledol a darparu canllaw hygyrchedd ar gyfer y swyddfeydd.

**Byddwn yn** cyflwyno mentrau i gefnogi pobl niwrowahanol i mewn i waith gan gynnwys ffeiriau swyddi cynhwysol sy'n dathlu niwrowahaniaeth.

## Yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGPh)

Department for Work & Pensions

Mae AGPh yn rhoi mesurau ar waith i greu canolfannau gwaith sy’n ystyriol o niwrowahaniaeth a gwella hyfforddiant a dealltwriaeth. Fel rhan o hyn, mae eu hyrwyddwyr awtistiaeth ar hyn o bryd yn gweithio i wella arwyddion ar draws eu canolfannau, gan gynnwys rhifau desg ac arwyddion cyfeirio. Bydd yr arwyddion newydd yn fwy cynhwysol, gan sicrhau bod cwsmeriaid niwrowahanol, yn ogystal â phawb arall, yn gallu dod o hyd i’w ffordd yn rhwydd.




Yn ogystal, mae AGPh hefyd yn gweithio i sicrhau bod eu digwyddiadau a’u ffeiriau swyddi yn hygyrch. Mae hyn yn cynnwys darparu slotiau amser tawelach, ystafelloedd preifat a chynnig y cyfle i gwrdd ag aelod o staff i gynnig cymorth yn ystod y digwyddiad. Mae holl staff y Ganolfan Waith wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth ac yn cael eu briffio cyn digwyddiadau i fod yn ymwybodol o unigolion ac yn barod i’w cefnogi.

**Byddwn yn** parhau i weithio gyda phartneriaid sy’n darparu llwybrau cefnogol i mewn i waith gan gynnig cyngor arbenigol i unigolion niwrowahanol sy’n chwilio am waith.

**Byddwn yn** gweithio tuag at greu amgylcheddau sy’n deall niwrowahaniaeth a gwneud Canolfannau Gwaith ledled Caerdydd yn fwy cynhwysol i unigolion niwrowahanol.

**Byddwn yn** cymryd mesurau i greu digwyddiadau cynhwysol a hygyrch i bobl niwroamrywiol, gan gynnwys darparu slotiau amser tawelach, ystafelloedd preifat a’r cyfle i gwrdd ag aelod o staff a all ddarparu cymorth yn ystod y digwyddiad.

## Cefnogi pobl niwrowahanol yn y gwaith

Mae cefnogi pobl niwrowahanol i gyrraedd eu nodau yn mynd y tu hwnt i addysg a’u cefnogi i gael mynediad at waith. Mae’n bwysig ein bod ni yng Nghaerdydd yn creu

amgylcheddau gwaith cynhwysol a bod pobl niwrowahanol yn cael eu cefnogi ac yn cael addasiadau rhesymol i'w helpu i ffynnu yn y gweithle.

Mae rhwydweithiau staff yn ffordd wych o hyrwyddo niwrowahaniaeth ar draws sefydliad a chreu cymuned niwrowahanol i gynnig cefnogaeth, gwybodaeth, a lobïo am newid lle bo angen. Mae Cyngor Caerdydd, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, yn ogystal â sefydliadau sector preifat fel y BBC, i gyd wedi sefydlu rhwydweithiau a chymunedau Gweithwyr Niwrowahanol.

## Gwasanaeth Ambiwlans Cymru; Rhwydwaith Gweithwyr PurpleSpace

Mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi datblygu Rhwydwaith Pobl PurpleSpace sy'n cynnig lle diogel i staff sy'n niwrowahanol, ac sy'n ymgyrchu am well cefnogaeth i staff o ran addasiadau rhesymol yn y gweithle. Mae eu Tîm Gwasanaethau Pobl yn gweithio i gynyddu'r capasiti ar gyfer patrymau gweithio hyblyg a hybrid i ddiwallu anghenion unigolion. Mae eu Tîm Ystadau a Chyfleusterau hefyd yn adolygu hygyrchedd eu fflyd a'u gweithfannau i wella profiad y gweithlu. Mae'r rhwydwaith hefyd yn darparu cymorth cyfoedion a llwyfan i rannu profiadau byw er mwyn helpu eraill i deimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u deall.

## Cyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi staff niwrowahanol a chreu amgylcheddau gwaith niwrogadarnhaol. Mae Cyngor Caerdydd yn creu 'Canllaw Niwroamrywiaeth yn y Gweithle' i gynnig gwybodaeth, cymorth a chyngor ymarferol am niwroamrywiaeth i reolwyr a chyflogeion er mwyn sicrhau bod ein gweithle yn gynhwysol i bawb. Mae'r canllaw yn disgrifio ffyrdd o wneud y broses recriwtio mor gynhwysol â phosibl, proses addasu gwaith, yn ogystal â ffyrdd o gefnogi cydweithwyr.



Er mwyn helpu i greu diwylliant sy'n fwy ymwybodol o niwrowahaniaeth o fewn Cyngor Caerdydd, rydym wedi creu llofnod e-bost Deall Niwrowahaniaeth newydd y gellir ei ychwanegu at eich llofnod e-bost presennol, fel bod staff yn gallu rhannu eu dewisiadau cyfathrebu gyda'r bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw. Mae modd addasu'r templed llofnod a gall staff ei ddefnyddio yn y ffordd orau iddyn nhw.

**Byddwn yn** parhau i ymgysylltu a gweithio'n agos gyda'r Gymuned Cyflogeion Niwrowahanol i nodi sut y gallwn ddiwallu anghenion staff niwrowahanol.

**Byddwn yn** gwella ymwybyddiaeth staff o Niwrowahaniaeth drwy gyflwyno a hyrwyddo modiwl e-ddysgu 'Deall Niwroamrywiaeth', a fydd ar gael i holl gyflogeion Cyngor Caerdydd.

**Byddwn yn** creu 'Canllaw Niwrowahaniaeth yn y Gweithle' sy'n amlinellu arferion rheoli cynhwysol, a fydd yn cael ei rannu'n eang gyda staff Cyngor Caerdydd a phob rheolwr llinell.

**Byddwn yn** rhannu adnoddau defnyddiol ar gyfer cefnogi pobl niwrowahanol â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol ledled Caerdydd yn rhagweithiol, gan eu hannog i sefydlu dull gweithredu niwrogadarnhaol.

## Cymuned Cyflogeion Niwrowahanol

Mae Cymuned Cyflogeion Niwrowahanol Cyngor Caerdydd yn cynnig cyfleoedd i gyflogeion sy'n uniaethu fel niwrowahanol gwrdd a siarad am faterion sy'n bwysig iddyn nhw. Maen nhw hefyd yn codi ymwybyddiaeth ac yn cynnig sgyrsiau cymunedol.

Cymuned Cyflogeion **NIWROWAHANOL**
**NEURODIVERGENT** Employee Community



## Nod Allweddol 3:

**Cael gwybodaeth y gallwch ymddiried ynddi**



Un rhwystr i bobl niwrowahanol a'u teuluoedd rhag cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt yw mynediad at wybodaeth gyfoes a hygyrch am wasanaethau yn eu hardal leol. Gall mynediad at wybodaeth berthnasol a chywir helpu pobl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a'u cefnogi i fyw bywydau boddhaol. Efallai na fydd gan lawer o bobl sy'n niwrowahanol ddiagnosis ffurfiol ac efallai na fyddant eisiau cael un. Felly, mae'n bwysig bod gwybodaeth ar gael i bawb, ar bob math o niwrowahaniaeth, p'un a oes ganddynt ddiagnosis ai peidio.

Ein nod yw gweithio tuag at sicrhau bod gan bobl niwrowahanol, rhieni, aelodau o'r teulu a gofalwyr di-dâl fynediad gwell at wybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â gwasanaethau a chymorth sydd ar gael.

**"Mae'n gallu bod yn heriol cael mynediad at wybodaeth ac yn anodd ei lywio"**

**"Mae angen i ni feddwl am rannu gwybodaeth mewn ffordd fwy rhagweithiol"**



## Pwyntiau Gwybodaeth Niwrowahaniaeth




Trwy'r ymgynghoriad, tynnodd llawer o bobl sylw at yr angen am fwy o wybodaeth am wasanaethau lles i gefnogi oedolion a theuluoedd niwrowahanol. Er bod cefnogaeth i'r wefan, dywedodd rhai pobl fod angen i'r wybodaeth fod yn fwy gweladwy ac ar gael mewn gwahanol fformatau. Mewn ymateb i hyn, byddwn yn creu 'Pwyntiau Gwybodaeth Niwrowahaniaeth' a fydd yn ardaloedd pwrpasol gweladwy lle gall pobl fynd i ddod o hyd i wybodaeth amrywiol sy'n ymwneud â gwasanaethau niwrowahaniaeth, lles a chymorth. Bydd y pwyntiau gwybodaeth hyn ar gael ym mhob Hyb a Llyfrgell yng Nghaerdydd, yn ogystal ag mewn lleoliadau gofal iechyd yng Nghaerdydd fel Ysbytai. Mae hon yn ffordd effeithiol annigidol o ddosbarthu gwybodaeth, a bydd yn cael ei monitro a'i hadolygu'n agos i ddeall y mathau o wybodaeth y mae pobl yn ei chasglu, fel y gellir teilwra gwybodaeth.

**Byddwn yn** sefydlu 'Pwyntiau Gwybodaeth Niwrowahaniaeth' ar draws pob Hyb a Llyfrgell yng Nghaerdydd ac ar draws lleoliadau gofal iechyd penodol.

## Tîm Strategaeth Ailgylchu ac Ymgysylltu

Gall rhai pobl niwrowahanol brofi heriau unigryw gydag ailgylchu gwastraff. Nid yw'r anawsterau hyn yn dod o ddiffyg gofal am yr amgylchedd, ond o sut mae ymennydd niwrowahanol yn prosesu gwybodaeth, mewnbwn synhwyraidd, a thasgau gweithredol. Yn ystod yr ymgysylltiad a ddigwyddodd wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, dywedodd rhai dinasyddion wrthym eu bod yn profi gorbryder a dryswch gyda rheolau ailgylchu.



Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod yr heriau hyn ac wedi ymrwymo i wneud Casgliadau Gwastraff a'r broses ailgylchu yn hygyrch i bawb. Gall y tîm Gwastraff ddarparu ymweliadau wyneb yn wyneb â phobl gartref, cymorth dros


y ffôn a byddant hefyd yn cysylltu ag aelodau o'r teulu neu ffrindiau i helpu dinasyddion gydag unrhyw heriau.

Yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad, bydd y tîm nawr yn gweithio ar ddatblygu canllawiau Hawdd eu Deall i gefnogi pobl niwrowahanol i reoli eu gwastraff cartref.

**Byddwn yn** cynyddu hygyrchedd casgliadau gwastraff trwy ddatblygu a lansio canllawiau Gwastraff ac Ailgylchu Hawdd eu Deall.

## Gwefan Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Ein nod yw dod â gwybodaeth sy'n berthnasol i bobl niwrowahanol a'u teuluoedd at ei gilydd, mewn un lleoliad canolog, gan ei gwneud yn haws llywio a dod o hyd i wybodaeth am wasanaethau a all helpu. Bydd ein gwefan yn cael ei chynllunio mewn cydweithrediad ag oedolion, pobl ifanc a theuluoedd niwrowahanol yng Nghaerdydd, drwy waith ymgynghori ac ymgysylltu wedi'i dargedu, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion y gymuned.




**Byddwn yn** datblygu gwefan Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, gyda'r nod o ddod â gwybodaeth leol at ei gilydd mewn lleoliad canolog sy'n hawdd ei lywio.

**Byddwn yn** ymgysylltu ag oedolion, plant a phobl ifanc niwrowahanol yng Nghaerdydd, yn ogystal â'u rhieni, gofalwyr di-dâl ac aelodau o'r teulu, ar ddatblygu gwefan Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** cynnal profion defnyddwyr ar y wefan i sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio.

**Byddwn yn** gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gwybodaeth gywir a chyfredol am wasanaethau, grwpiau cynhwysol a chefnogaeth sydd ar gael i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd yng Nghaerdydd.

**Byddwn yn** cynnwys gwybodaeth am wasanaethau ar gyfer gwahanol fathau o niwrowahaniaeth, yn enwedig lle mae bylchau mewn gwybodaeth, gan gynnwys dyslecsia, dyscalcwlia, camysgrifennu, dyspracsia, Syndrom Tourette a niwrowahaniaeth caffaeledig.

## Gwefan hawdd ei darllen Cyngor Caerdydd:

Ar hyn o bryd mae Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu gwefan newydd, hawdd ei darllen. Er mwyn dysgu o arferion gorau, cynhaliwyd ymchwil gefndirol i ardaloedd awdurdodau lleol eraill.  Mae fideos hefyd wedi cael eu datblygu i wella hygyrchedd a helpu pobl i ddysgu am wasanaethau allweddol.

**Byddwn yn** gweithio i sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau allweddol yn fwy hygyrch i bawb drwy ddatblygu gwefan hawdd ei darllen Cyngor Caerdydd.

## Gwefan Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd a'r Mynegai

Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd

Mae Cyngor a Chymorth i Deuluoedd Caerdydd yn gweithio i ddiweddaru eu gwefan i sicrhau bod teuluoedd ar draws y ddinas yn gallu cael mynediad cyflym a hawdd at ystod eang o wybodaeth ar gyfer y rhai sy'n ceisio cymorth.

Mae'r wefan yn cynnal 'Y Mynegai', sef cofrestr wirfoddol Caerdydd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau, niwrowahaniaeth neu anghenion ychwanegol. Gall teuluoedd ymuno â'r gofrestr ar y wefan i dderbyn e-fwletinau rheolaidd am wasanaethau, digwyddiadau a gweithgareddau. Bydd gwaith yn parhau gyda phartneriaid i sicrhau bod teuluoedd babanod, plant a phobl ifanc ag anableddau, niwrowahaniaeth neu anghenion ychwanegol yn gallu cael gafael ar wybodaeth gyfredol sy'n berthnasol iddyn nhw.

**Byddwn yn** datblygu gwefan newydd a mwy hygyrch i gynnig gwybodaeth a chyngor i rieni, gofalwyr a theuluoedd yng Nghaerdydd.

**Byddwn yn** archwilio ffyrdd o wneud Bwletin y Mynegai yn fwy diddorol a hygyrch i deuluoedd yng Nghaerdydd.

## Dewis Cymru

Mae DEWIS yn wefan sydd â'r nod o helpu pobl i gael gafael ar wasanaethau cymorth lleol yng Nghymru a dod o hyd i'r wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i wella eu lles. Mae Cynghorau Caerdydd a Bro Morgannwg yn cydweithio i wella cynaliadwyedd, datblygiad parhaus a'r gwaith o gynnal DEWIS fel porth gwybodaeth ar gyfer y rhanbarth.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i'w gwneud hi'n haws chwilio am wasanaethau a gweithgareddau cynhwysol ar gyfer oedolion a phobl ifanc niwrowahanol yng Nghaerdydd.

## Cyfryngau Cymdeithasol Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Lansiwyd cyfrif cyfryngau cymdeithasol Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ar X yn 2024 i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a diweddariadau allweddol ar gynnydd Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth. Wrth i Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth dyfu, ein nod yw ehangu ein cyrhaeddiad trwy'r cyfryngau cymdeithasol a'u defnyddio fel math ychwanegol o gyfathrebu â'r gymuned niwrowahanol a sefydliadau partner.

**Byddwn yn** cyflwyno platfformau cyfrifon cyfryngau cymdeithasol fel Facebook ac Instagram i ehangu cyrhaeddiad ein gwaith o ymgysylltu â'r gymuned niwrowahanol yng Nghaerdydd a hyrwyddo gwaith Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth.

## Fforwm Deall Niwrowahaniaeth

Rydym yn bwriadu lansio Fforwm Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth gyda chynrychiolwyr o'r gymuned niwrowahanol, grwpiau rhieni a gofalwyr, sefydliadau'r trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol. Bydd hwn yn rhoi cyfle i aelodau o'r gymuned gyfrannu at fentrau, ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd Cyngor Caerdydd a phartneriaid. Bydd y fforwm hwn hefyd yn gyfle i rannu gwybodaeth allweddol yn ymwneud â gwasanaethau, gweithgareddau a digwyddiadau niwrowahanol gyda chynrychiolwyr o'r gymuned yn uniongyrchol. Bydd y fforwm yn newid rhwng cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddarparu gwahanol gyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad bywyd gymryd rhan.

**Byddwn yn** sefydlu Fforwm Deall Niwrowahaniaeth a fydd yn cwrdd bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Gaerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, y Cynghorydd Leonora Thomson.




## Cylchlythyr Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Bydd Cylchlythyr Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn cael ei lansio, a fydd yn gyhoeddiad chwarterol wedi'i gynllunio i hysbysu, cefnogi a grymuso unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd. Bydd pob rhifyn yn cynnwys straeon newyddion cadarnhaol, gan dynnu sylw at gyflawniadau a mentrau cynhwysol sy'n dathlu niwrowahaniaeth. Bydd y cylchlythyr hefyd yn darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol, gan gynnig arweiniad ar lywio addysg, cyflogaeth a bywyd bob dydd gydag anghenion niwrowahanol mewn golwg. Bydd ffocws craidd ar fynd i'r afael â stigma a chodi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth, gan feithrin cymdeithas fwy cynhwysol a deallus. Trwy hybu lleisiau niwrowahanol a rhannu adnoddau, bydd y cylchlythyr hwn yn offeryn gwerthfawr ar gyfer gwneud cysylltiadau a gwella dealltwriaeth.

**Byddwn yn** datblygu cylchlythyr chwarterol sy'n rhannu'r wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael i bobl niwrowahanol yng Nghaerdydd.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i gyflwyno'r cylchlythyr Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth i leoliadau cymunedol ledled Caerdydd.

**Byddwn yn** defnyddio'r cylchlythyr i dynnu sylw at brofiadau pobl sydd â phrofiadau bywyd gwahanol sy'n adlewyrchu ein cymunedau amrywiol yng Nghaerdydd.

## Sgriniau Digidol yn yr Hybiau




Mae Hybiau Caerdydd wedi gosod 17 sgrin ddigidol sy'n efelychu model sgrin meddygfa ac yn hyrwyddo negeseuon gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wybodaeth iechyd o ffynonellau dibynadwy. Mae sgriniau fflat wedi'u gosod mewn safleoedd amlwg yn yr Hybiau lle gall ymwelwyr weld negeseuon iechyd cyhoeddus a negeseuon cyhoeddus pwysig eraill pan fyddant yn yr adeiladau'n defnyddio gwasanaethau'r Hybiau.

**Byddwn yn** sicrhau ein bod yn rhannu gwybodaeth a chyngor sy'n ymwneud â gwasanaethau niwrowahaniaeth yng Nghaerdydd a'r fenter Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ar y sgriniau digidol.

## Digwyddiadau



Cynhaliodd Cyngor Caerdydd ddigwyddiad ar 19 Mawrth 2024, gan ddod â gweithwyr proffesiynol, partneriaid a'r gymuned niwrowahanol at ei gilydd i ddechrau'r daith o weithio tuag at Gaerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, a chafwyd llawer o adborth cadarnhaol yn nodi ei fod yn ffordd wych o ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau lleol sydd ar gael. Gwahoddwyd sefydliadau i gynnal stondinau a chynnig gwybodaeth ddefnyddiol am wasanaethau y maent yn eu darparu i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd.

Roedd siaradwyr arbenigol hefyd yn bresennol yn y digwyddiad, a llawer ohonynt â phrofiadau byw o niwrowahaniaeth, gan dynnu sylw at y cynnydd y mae angen i ni weithio tuag ato.  Drwy gynnal digwyddiadau gallwn daflu goleuni ar y gwaith y mae Caerdydd yn ei wneud wrth weithio tuag at fod yn ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i gynnal rhagor o ddigwyddiadau yng Nghaerdydd i godi ymwybyddiaeth a dathlu niwrowahaniaeth a rhannu gwybodaeth.

**Byddwn yn** defnyddio llwyfan Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth i godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau eraill sy'n canolbwyntio ar niwrowahaniaeth a gwneud y digwyddiadau hyn yn fwy gweladwy.

**Byddwn yn** sicrhau bod y digwyddiadau hyn mor hygyrch ac ystyriol o niwrowahaniaeth â phosibl.

## Niwrowahaniaeth Cymru

Niwrowahaniaeth Cymru yw'r tîm cenedlaethol ar gyfer niwrowahaniaeth yng Nghymru. Mae eu gwefan yn cynnig amrywiaeth o adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer unigolion niwrowahanol, rhieni a gofalwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Awtistiaeth Cymru oedd eu henw gynt, a'u nod yw diweddaru ac adolygu eu hadnoddau a chynnig mwy o wybodaeth a hyfforddiant ar niwrowahaniaeth yn ehangach. Ar hyn o bryd maen nhw'n gweithio ar brosiect i greu ffilm sy'n esbonio beth yw ystyr niwrowahaniaeth ac yn egluro terminoleg wahanol.

Er bod Niwrowahaniaeth Cymru yn dîm cenedlaethol, maen nhw'n gweithio'n agos gyda phartneriaid yng Nghaerdydd i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth ac o sut y gall sefydliadau fod yn fwy cynhwysol. Mae'r holl adnoddau y mae Tîm Niwrowahaniaeth Cymru yn eu cynhyrchu yn cael eu cynhyrchu ar y cyd â phobl sydd â phrofiad byw.




Digwyddiad Niwrowahaniaeth Cymru

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo'r adnoddau sydd ar gael ac annog sefydliadau ledled Caerdydd i wella eu dealltwriaeth o niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** cyfeirio'r rhai sydd â phrofiad byw o niwrowahaniaeth at adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol a allai wella eu dealltwriaeth eu hunain o niwrowahaniaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael.

## Nod Allweddol 4:

**Cefnogi iechyd a lles pobl niwrowahanol a'u teuluoedd**



Gall unigolion niwrowahanol wynebu amrywiaeth eang o heriau mewn bywyd bob dydd yn ymwneud â chyfathrebu, prosesu synhwyraidd a gweithrediad goruchwyliol. Yn aml mae gan unigolion niwrowahanol anghenion a phrofiadau gwahanol, ac nid yw'r heriau y mae rhai pobl yn eu hwynebu o reidrwydd yn cael eu hwynebu gan eraill.

Ein nod yw gweithio tuag at Gaerdydd lle mae anghenion iechyd a lles pobl niwrowahanol a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi.

**"Mae cael mynediad at gymorth yn anodd iawn"**

**"Mae gorfod cael diagnosis yn rhwystr i gefnogaeth"**

**"Mae pobl niwronodweddiadol yn meddwl ein bod ni i gyd mewn un bocs a bod angen yr un gefnogaeth arnon ni i gyd"**



## Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC)

Nododd yr ymgynghoriad fod angen mwy o gyfranogiad gan y trydydd sector a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd sefydliadau llawr gwlad wrth gefnogi'r gymuned niwrowahanol yng Nghaerdydd. Mae C3SC wedi ymrwymo i gefnogi sefydliadau'r trydydd sector i ddiwallu anghenion amrywiol yn well, gan gynnwys anghenion pobl niwrowahanol sy'n wynebu rhwystrau i fynediad at wasanaethau prif ffrwd trwy feithrin a datblygu atebion a arweinir gan y gymuned. Cyflawnir hyn drwy:

C3SC
Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

» Gynyddu gwytnwch ac effeithiolrwydd darpariaeth leol trwy hyfforddiant, cyngor ac arweiniad mewn llywodraethu da, cyllid cynaliadwy, a recriwtio gwirfoddolwyr cynhwysol.

» Rhannu arbenigedd a dealltwriaeth ar draws y sector trwy hwyluso dysgu gan gymheiriaid.

» Rhoi lleisiau defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd dylunio a chyflawni trwy ymgysylltu a chyfranogi effeithiol.

Mae C3SC hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth gryfhau perthnasoedd rhwng sefydliadau'r trydydd sector a gwasanaethau statudol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu llwybrau gwasanaeth integredig.

**Byddwn yn** sefydlu a chydlynu Grŵp Gweithredu Niwrowahaniaeth, sy'n galluogi sefydliadau trydydd sector i rannu profiadau, datblygu swyddi eiriolaeth ar y cyd a llunio gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag anghenion heb eu diwallu.

**Byddwn yn** casglu tystiolaeth o bob rhan o'r sector i sicrhau bod lleisiau niwrowahanol yn llywio strategaeth a datblygu gwasanaethau.

**Byddwn yn** cefnogi sefydliadau i ddylunio a sicrhau cyllid ar gyfer mentrau sy'n dileu rhwystrau ac yn grymuso pobl niwrowahanol i ffynnu.

**Byddwn yn** eirioli gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid eraill dros fuddsoddi mewn gwasanaethau ataliol, cymunedol, sy'n canolbwyntio ar adferiad - wedi'u cydgynhyrchu gyda phobl sydd â phrofiad bywyd.

## Iechyd Cyhoeddus Cymru: Prosiect Sgrinio'r Fron

Trwy ein hymgynghoriad tynnwyd sylw at y ffaith bod llawer o bobl niwrowahanol yn wynebu rhwystrau i fynediad at wasanaethau gofal iechyd oherwydd diffyg gwybodaeth, ofn ynghylch beth i'w ddisgwyl ac amgylcheddau gofal iechyd anhygyrch. Yng Nghymru, mae rhywfaint o waith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda thimau Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd a'r grŵp sgrinio ac anghydraddoldebau i sicrhau bod gwybodaeth am sgrinio yn hygyrch. Mae fideos 'Beth i'w ddisgwyl' yn ffordd gynhwysol a chefnogol o ddangos i bobl beth mae sgrinio yn ei olygu ac i chwalu rhwystrau i gyfranogiad. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau gyda Bron-Brawf Cymru, gyda fideo yn cael ei lansio ar eu gwefan a'i rannu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.



**Testun y ddelwedd**: Sgrinio'r fron - Beth i'w ddisgwyl

Mae'r fideo byr hwn yn helpu pobl i ddeall beth yw sgrinio'r fron a pham mae'n bwysig. Mae'n eich tywys drwy'r daith sgrinio, gan ddangos sut mae pelydr-X o'r fron (mamogram) yn cael ei gymryd ac yn dweud wrthych am yr ystod o gymorth sydd ar gael.

## Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro

Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale
Coleg Adfer a Lles
Recovery & Wellbeing College

Coleg Adfer a Lles Caerdydd a'r Fro yw'r gwasanaeth GIG cyntaf sy'n cael ei gyd-gynhyrchu a'i arwain gan gymheiriaid o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Maent yn darparu cyrsiau addysgol a lles am ddim ynghylch iechyd meddwl a chyflyrau iechyd corfforol, sydd ar gael i bawb. Mae pob cwrs yn cael ei ddylunio ar y cyd a'i hwyluso gan weithwyr iechyd proffesiynol a hyfforddwyr cyfoedion (unigolion â phrofiad byw), gan ddarparu cydbwysedd o wybodaeth fyw a gwybodaeth wedi'i ddysgu.

Ar hyn o bryd mae'r Coleg Adfer a Lles yn darparu cwrs o'r enw 'Deall Niwroamrywiaeth'. Mae'r cwrs hwn yn rhoi cyfle i archwilio dealltwriaeth, gwybodaeth a phrofiadau o niwroamrywiaeth. Mae'r cwrs hwn yn cyflwyno pynciau fel hunaniaeth, prosesu synhwyraidd, gweithrediad goruchwyliol, cyfathrebu, yn ogystal ag archwilio'r effeithiau posibl ar iechyd meddwl unigolyn.

**Byddwn yn** rhannu gwybodaeth am y cwrs 'Deall Niwroamrywiaeth' i'r rhai sydd â phrofiad bywyd a gweithwyr proffesiynol i wella eu dealltwriaeth o niwrowahaniaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael trwy eu hyrwyddo trwy ein partneriaethau ni.

**Byddwn yn** rhannu gwybodaeth a chyngor gyda chyfranogwyr sy'n dilyn y cwrs ar y gefnogaeth sydd ar gael i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd.

## Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) Caerdydd a'r Fro

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol, a gofalwyr.

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Mae un o'r rhaglenni gwaith yn esbonio'r ymrwymiad i sicrhau bod pobl sy'n niwrowahanol yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg iawn. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar y gwasanaeth presennol trwy atgyfnerthu cefnogaeth, gwella'r ddarpariaeth a monitro gweithrediad y Cod Ymarfer Awtistiaeth, yn ogystal â gweithredu'r Cod Ymarfer Niwrowahaniaeth newydd sydd ar ddod.

Mae Cynllun Cyflawni blynyddol ac yn cael ei oruchwylio gan fwrdd Niwrowahaniaeth strategol newydd a fydd yn gyfrifol am wella gwasanaethau a chefnogaeth i bobl niwrowahanol a'u teuluoedd yng Nghaerdydd a'r Fro.

**Byddwn yn** cefnogi Bwrdd Niwrowahaniaeth strategol i alluogi gwaith partneriaeth gwell ar draws y rhanbarth.

**Byddwn yn** cefnogi newid tuag at system sy'n diwallu anghenion pobl sy'n niwrowahanol yn well.

**Byddwn yn** cyflawni meysydd blaenoriaeth allweddol y Cynllun Cyflawni Niwrowahaniaeth.

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro – Gwasanaeth Niwroddatblygiadol

Mae Gwasanaeth Niwroddatblygiadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cefnogi plant a phobl ifanc (0-18 oed) ag anghenion niwroddatblygiadol ac yn arbenigo mewn cyflwyno asesiadau cynhwysfawr i nodi cryfderau a heriau unigol, gyda'r nod o ddarparu diagnosis cywir ac argymhellion wedi'u teilwra. Darperir asesiadau arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc a allai ymgyflwyno gydag Anhwylder Sbectrwm Awtistig (ASA), Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG), Anhwylder Sbectrwm Alcohol Ffetws (ASAFf), ac Anhwylder Cydsymud Datblygiadol (ACD). Maent yn dîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys pediatregwyr, seiciatryddion, fferyllwyr, nyrsys arbenigol, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol, a therapyddion lleferydd ac iaith ac mae'r gwasanaeth hwn wedi'i leoli yng Nghanolfan Blant Ysbyty Dewi Sant a Chanolfan Blant Ysbyty Llandochau.

Gall y gwasanaeth hwn fod yn hanfodol yng nghyfnodau cynnar y cymorth gan eu bod yn:

- Darparu mewnbwn diagnostig arbenigol ar gyfer cyflyrau niwro-ddatblygiadol
- Cynnig cyngor a strategaethau ymarferol i gefnogi plant yn y cartref, yn yr ysgol ac yn y gymuned
- Cydweithio'n agos â theuluoedd, ysgolion, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a gwasanaethau eraill i sicrhau dull cyfannol ac integredig o ofal.

Lle mae angen cymorth parhaus neu arbenigol, maent yn tywys teuluoedd tuag at y gwasanaethau a'r adnoddau mwyaf priodol i hyrwyddo parhad gofal a'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn.  Mae hyn yn cynnwys:

- Emotional Explorers, cyfres o weithdai seicoaddysg ar gyfer teuluoedd ar ôl diagnosis ASA
- Sesiynau seico-addysg dan arweiniad Therapydd Galwedigaethol ar gyfer rhieni, gan ganolbwyntio ar anghenion synhwyraidd a gweithrediadol
- Gweminar wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad ynghylch ADCG ac, os yn briodol, maent yn dechrau meddyginiaeth a chamau dilynol

Mae'r cymorth yn seiliedig ar amgylchiadau unigol, er enghraifft, gall y rhai sy'n mynychu ysgolion arbennig neu'r rhai sy'n 17 oed a hŷn ddilyn llwybrau asesu wedi'u haddasu.  Maent hefyd yn darparu cymorth ymgynghori a chyswllt i wasanaethau eraill fel Enfys a'r tîm Lles Emosiynol ac Iechyd Meddwl.

Derbynnir atgyfeiriadau gan ysgolion, meithrinfeydd, gweithwyr proffesiynol clinigol eraill a meddygon teulu ac maent yn cael eu brysbennu trwy dîm Un Pwynt Mynediad (UPM) i sicrhau bod pob plentyn neu berson ifanc yn cael ei gyfeirio at y llwybr mwyaf priodol ar gyfer asesu neu gymorth. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu â'r rhiant, neu'r gofalwr ac mae'r ffurflenni'n casglu gwybodaeth am y cartref a'r ysgol. Mae pecyn atgyfeirio ar gael sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Yn anffodus, oherwydd cynnydd sylweddol yn y galw dros y blynyddoedd diwethaf, mae rhestrau aros hir ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r tîm yn gweithio'n galed i ddarparu cymorth cyn gynted â phosibl, a gallai hyn gynnwys atgyfeiriadau at wahanol wasanaethau wrth aros. Nid yw'n bosibl rhoi union amser i unrhyw un o ran pa mor hir y byddan nhw'n aros, ac maent yn gwybod pa mor anodd y gall hyn fod i bawb dan sylw a gwerthfawrogir dealltwriaeth o'r sefyllfa hon.  Fe welwch yr holl wybodaeth ar wefan Niwroddatblygiad Ifanc – Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd CaF yn esbonio'r hyn sydd ei angen ac rydym yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn cael eu hysbysu.

**Byddwn yn** parhau'n ymrwymedig i ddull "Dim Drws Anghywir" i sicrhau'r gefnogaeth fwyaf priodol waeth beth fo'r pwynt mynediad i'r system.

**Byddwn yn** tywys teuluoedd tuag at y cymorth a'r adnoddau mwyaf priodol i helpu i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bob plentyn.

**Byddwn yn** parhau i ganolbwyntio ar leihau rhestrau aros yn wyneb galw cynyddol ac absenoldeb capasiti ychwanegol.

**Byddwn yn** darparu asesiadau cynhwysfawr sy'n nodi cryfderau yn ogystal â heriau gydag argymhellion wedi'u teilwra.

**Byddwn yn** gweithio'n galed er gwaethaf galw uchel i hysbysu pobl ar bob cam o'r broses.

## Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI) Caerdydd a'r Fro

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Caerdydd a'r Fro yn wasanaeth awtistiaeth amlddisgyblaethol arbenigol ar gyfer oedolion. Mae'r GAI yn darparu asesiadau diagnostig o awtistiaeth ar gyfer oedolion; ymyriadau unigol a grŵp; cymorth grŵp ac unigol ar gyfer rhieni a gofalwyr oedolion awtistig; a hyfforddiant, ymgynghori a chyngor ar awtistiaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl awtistig. Mae'r GAI yn wasanaeth GIG sy'n gweithio'n agos gyda sefydliadau partner.



Mae'r galw am asesiadau diagnostig yn parhau i gynyddu ac yn drech na'r adnoddau. Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno proses asesu brysbennu, y gwnaethant ei threialu'n llwyddiannus am flwyddyn o fis Medi 2022. Mae'r gwasanaeth bellach yn gallu dargyfeirio'r rhai nad oes angen asesiad llawn arnynt, ond hefyd yn cynnig proses 'llwybr cyflym' i'r rhai sydd ag anghenion sy'n golygu bod angen cyflymu eu hasesiad. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r GAI wedi canolbwyntio ar wella'r ystod o grwpiau a gweithdai maen nhw'n eu cynnig yn seiliedig ar adborth gan oedolion awtistig a gofalwyr ac mae bellach yn rhedeg rhaglen grŵp a gweithdy lawn. Ymysg y grwpiau hyn mae: Cwrs ôl-ddiagnostig Awtistiaeth; Rheolaeth Emosiynol; Awtistiaeth a Chwsg, Cyfathrebu Cymdeithasol; a Deall Ymddygiad (ar gyfer gofalwyr). Mae'r gweithdai yn cynnwys: Deall Awtistiaeth a'r Synhwyrau; Gweithredu Gweithredol; Byw Bywyd Cytbwys; Ystyried Lefelau Egni; a Chyflwyniad i Awtistiaeth (ar gyfer gofalwyr). Maent hefyd yn cynnig Hyb Awtistiaeth unwaith y mis yn Hyb y Llyfrgell Ganolog Caerdydd.

**Byddwn yn** parhau i symleiddio'r broses asesu ddiagnostig yn wyneb y galw parhaus yn absenoldeb adnoddau ychwanegol.

**Byddwn yn** canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant o fewn y Bwrdd Iechyd, yn enwedig ar draws y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl, a chynyddu'r cynnig o gyngor ac ymgynghori i sefydliadau partner.

**Byddwn yn** gweithio ar y cyd â phobl sydd â phrofiad bywyd i helpu i lunio ein gwasanaethau.

## Cyngor Caerdydd – Tîm Niwroamrywiaeth Gwasanaethau Oedolion

Sefydlwyd y Tîm Niwroamrywiaeth o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion ym mis Medi 2023 gyda'r nod o gynnal asesiadau o unigolion â diagnosau o niwrowahaniaeth. Mae hyn yn cynnwys awtistiaeth, ADCG, a syndrom Tourette a/neu anhwylder Tic sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n gysylltiedig â'u niwrowahaniaeth. Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda'r rheini ar y llwybr diagnostig ar gyfer awtistiaeth lle mae'n amlwg bod eu hanghenion gofal a chymorth yn ymwneud â niwrowahaniaeth. Maent yn darparu cyngor a chefnogaeth mewn partneriaeth ag unigolion a'u teuluoedd er mwyn bodloni eu hanghenion a nodwyd.

Ers eu sefydlu, maent wedi datblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol gyda nifer o wasanaethau gan eu galluogi i drefnu pecynnau priodol o ofal a chymorth i unigolion. Mae hyn wedi cynnwys nodi a chomisiynu lleoliadau preswyl, lleoliadau byw â chymorth a gofal cartref. Mae'r tîm wedi ymrwymo i gefnogi unigolion niwrowahanol i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cymunedau ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau lleol.

**Byddwn yn** gweithio i gynyddu nifer y staff wrth symud ymlaen gan recriwtio i rôl gweithiwr cymdeithasol newydd er mwyn lleihau amseroedd aros ar gyfer asesiadau.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i greu cysylltiadau â staff asiantaethau gofal cartref sydd wedi cael hyfforddiant mwy arbenigol.

**Byddwn yn** parhau i weithio gyda phartneriaid Tai i gynyddu mynediad at lety gyda gofal a chefnogaeth ar y safle.

**Byddwn yn** ymgysylltu â phartneriaid i roi barn unigolion niwrowahanol wrth wraidd y gwasanaethau rydyn ni'n eu datblygu.

## Rhaglen E-Pats Llygad

Llygad yw'r Tîm Profiad Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant ag anabledd dysgu sy'n dod i'r amlwg neu ddatblygiad annodweddiadol ym Mwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Mae Dulliau Cadarnhaol Cynnar ar gyfer Cynorthwyo (E-Pats)

yn rhaglen 8 wythnos ar gyfer teuluoedd sy'n magu plentyn ifanc (pum mlwydd oed ac iau) ag anabledd dysgu a/neu ddatblygiadol. Wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno gan weithwyr proffesiynol a gofalwyr yn gweithio gyda'i gilydd, mae'n rhoi cyfle i deuluoedd gysylltu â theuluoedd eraill sydd â phrofiad byw.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i godi ymwybyddiaeth o'r rhaglen E-PAtS fel bod mwy o deuluoedd yn cael cynnig cymorth a'r cyfle i gysylltu â theuluoedd eraill sydd â phrofiad byw.

## Rhaglen Rhianta Cygnet a Phrosiect Rhan y Rhiant

Mae gwasanaethau Rhianta Caerdydd wedi derbyn statws Sefydliad sy'n Deall ac yn Derbyn Awtistiaeth gan Niwrowahaniaeth Cymru a byddant yn gweithio tuag at Ddyfarniad Cynhwysiant y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS). Mae Rhianta Caerdydd yn cynnal rhaglen rhianta Cygnet ar gyfer rhieni neu ofalwyr plant rhwng 5 oed a 18 oed ar y sbectrwm awtistig. Cynlluniwyd y rhaglen i gynyddu dealltwriaeth rhieni o gyflyrau sbectrwm awtistig, cynnig syniadau ac atebion ymarferol i rai o'r heriau y gall rhieni eu hwynebu, a rhoi cyfle i rieni gwrdd â rhieni eraill sydd wedi cael profiadau tebyg, er mwyn cael cefnogaeth a dysgu oddi wrth ei gilydd.

Bydd Rhianta Caerdydd hefyd yn cyflwyno Rhan y Rhiant (ADCG), cwrs 8 wythnos i rieni neu ofalwyr plant 5-16 oed ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, wedi'i ddarparu gan hwyluswyr profiadol wedi'u hyfforddi'n llawn a fydd yn darparu cefnogaeth, cyngor, sgiliau ac yn ceisio eich grymuso i wella'ch gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o ADCG a chael cyfle i rannu profiadau gyda rhieni a gofalwyr eraill.

**Byddwn yn** parhau i ddarparu rhaglen rhianta Cygnet i rieni plant awtistig, gan ddefnyddio ysgolion, Hybiau a lleoliadau cymunedol ar draws Caerdydd.

**Byddwn yn** cyflwyno 'Rhan y Rhiant' i gefnogi rhieni plant ag ADCG, gan ddefnyddio ysgolion, Hybiau a lleoliadau cymunedol ar draws Caerdydd.

**Byddwn yn** gweithio tuag at gyflawni Dyfarniad Cynhwysiant Rhaglen Gymunedol y Gymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth.

## Ambiwlansys Synhwyraidd

Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi ymgymryd â gwaith i wella eu dealltwriaeth o sut mae amgylcheddau ambiwlans yn effeithio ar bobl ag anawsterau synhwyraidd, dementia ac anableddau gwybyddol eraill. Mae canfyddiadau o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd wedi nodi y bydd creu amgylcheddau mwy optimaidd ar gyfer gwahanol grwpiau o gleifion, gan gynnwys gwella elfennau fel goleuadau, sŵn a lliwiau, ynghyd â hyfforddiant pellach i staff, yn darparu gwasanaeth gwell i'r unigolyn. Yn dilyn yr ymchwil yma mae lle i brofi a gweithredu rhai o'r mentrau hyn, gan gynnwysg;

- Lluniau ar gerbydau i dynnu sylw
- Adolygiad o'r synau y tu mewn i'r cerbyd i archwilio newidiadau
- Newid lloriau, lliwiau, goleuadau a nodweddion dylunio eraill y tu mewn i'r cerbyd



**Byddwn yn** gweithio gydag eraill ar draws Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i nodi a phrofi ymyriadau a fydd yn gwella profiadau a chanlyniadau i'r rheini sydd ag anawsterau synhwyraidd a dementia.



## Nod Allweddol 5:

**Cael eich deall a dathlu gwahaniaethau**



Gwyddom fod gan bobl niwrowahanol lawer o gryfderau a ffyrdd unigryw o feddwl sydd o fudd i'n cymunedau a'n gweithleoedd. Fodd bynnag, oherwydd diffyg dealltwriaeth a chamwybodaeth, mae unigolion a theuluoedd niwrowahanol yn aml yn wynebu stigma a rhagdybiaethau amdanynt. Gall y diffyg dealltwriaeth hwn gael effaith uniongyrchol ar les personol. Er mwyn creu dinas lwyddiannus a ffyniannus, mae'n hanfodol ein bod yn gwneud mwy i ddathlu'r gymuned niwrowahanol, codi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o gryfderau a chyfraniad pobl niwrowahanol yng Nghaerdydd, yn herio'r stigma ac yn gweithio tuag at ddinas lle mae pobl niwrowahanol yn cael eu deall a'u gwerthfawrogi.

**"Mae pob person niwrowahanol yn wahanol"**

**"Mae yna ddiffyg ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth a rhagdybiaethau"**

**"Rwy'n cael trafferth mewn mannau prif ffrwd oherwydd agweddau pobl eraill felly dyma beth sydd angen newid"**

**"Mae pobl yn eich trin chi'n wahanol, yn seiliedig ar ystrydebau"**

# Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Neurodivergent Friendly Cardiff

Tynnodd llawer o bobl sylw at bwysigrwydd gweithio'n uniongyrchol gyda'r gymuned niwrowahanol a'r rhai sydd â phrofiad byw i helpu i lunio cyfathrebu cyhoeddus.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth a mynd i'r afael â chamwybodaeth, byddwn yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth, ymgysylltu â'r gymuned, a mentrau partneriaid. Trwy ddigwyddiadau ac allgymorth, byddwn yn annog sgyrsiau agored ac yn hyrwyddo dealltwriaeth ymhlith unigolion a sefydliadau. Trwy gydweithio â'r rhai sydd â phrofiad byw, gallwn weithio i fynd i'r afael â chamwybodaeth, annog arferion cynhwysol a chreu cymdeithas fwy gwybodus a chefnogol yng Nghaerdydd.




**Byddwn yn** dathlu pob person niwrowahanol ac yn gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd i helpu i lunio cyfathrebu ledled y ddinas gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth a mynd i'r afael â stigma.

**Byddwn yn** datblygu ac yn rhannu adnoddau cywir, hygyrch sy'n tynnu sylw at amrywiaeth profiadau pobl niwrowahanol, gan herio ystrydebau a chamsyniadau.

**Byddwn yn** gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o wahanol fathau o niwrowahaniaeth.

## Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi ymrwymo i gydnabod a darparu ar gyfer yr anghenion amrywiol yn y gymuned, fel y gall pawb gael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2026 yn cyfeirio at fesurau y byddant yn eu cymryd camau i sicrhau bod gan eu staff y polisïau, yr offer a'r prosesau cywir i sicrhau tegwch yn y gweithle. Trwy gasglu data o Asesiadau Niwroamrywiaeth a Phasbortau 'Gweithio gyda Fi', maent wedi nodi cynnydd mewn ceisiadau am addasiadau rhesymol, gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigolion niwrowahanol yn y gweithlu a'r gymuned.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru wedi cyflwyno rhaglen drawsnewid o'r enw 'Cam Ymlaen' sy'n cynnwys maes gwaith yn ymwneud ag Amrywiaeth, Cynhwysiant, Cydlyniant a Chydraddoldeb, gyda ffocws penodol ar niwroamrywiaeth.

**Byddwn yn** gwerthuso prosesau i gefnogi hygyrchedd, gan gynnwys recriwtio, dyrchafu ac addasiadau rhesymol.

**Byddwn yn** cefnogi a hyrwyddo'r Rhwydwaith Staff Niwroamrywiaeth a gweithio ar y cyd â'r rhwydwaith gan gynnwys yn ystod ymarferion ymgynghori a gweithdrefnau.

**Byddwn yn** rhannu negeseuon cadarnhaol am niwrowahaniaeth ar draws y Gwasanaeth Tân ac yn codi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael i staff yn ystod Mis Dathlu Niwroamrywiaeth.

## Heddlu De Cymru

Mae gan Heddlu De Cymru ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ac maen nhw am sicrhau bod eu holl staff, swyddogion a gwirfoddolwyr yn cael eu cynrychioli ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae ganddynt amrywiaeth o gymdeithasau a rhwydweithiau staff, nid yn unig i gefnogi'r rhai sy'n gweithio i Heddlu De Cymru, ond hefyd i'w cefnogi fel sefydliad yn y penderfyniadau maen nhw'n eu gwneud.

Ffurfiwyd y Rhwydwaith Niwroamrywiaeth i godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth o fewn Heddlu De Cymru ac i gefnogi cydweithwyr niwrowahanol a'r rhai a allai fod yn cefnogi pobl niwrowahanol. Eu nod yw codi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth ar draws yr heddlu trwy gynnal ystod o weminarau, cyfarfodydd dal i fyny a mewnbynnau ar gyfer timau ac adrannau eraill ynghylch niwrowahaniaeth. Yn ogystal, mae Heddlu De Cymru wedi hyfforddi nifer o staff i fod yn Eiriolwyr Niwroamrywiaeth i wella dealltwriaeth a chefnogi cydweithwyr ar draws yr heddlu.

**Byddwn yn** gweithio'n agos gyda'r Rhwydwaith Niwroamrywiaeth i wella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth ac o addasiadau y gellir eu gwneud ar draws yr heddlu.

**Byddwn yn** cyflwyno hyfforddiant niwrowahaniaeth wedi'i dargedu i dimau Heddlu De Cymru sy'n ymdrin â'r cyhoedd.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o gynlluniau a all gefnogi unigolion niwrowahanol sy'n defnyddio gwasanaethau'r heddlu megis cynllun Cerdyn Cadw'n Ddiogel Cymru.

**Byddwn yn** ymgysylltu â'r Rhwydwaith Niwroamrywiaeth ac aelodau o'r gymuned niwrowahanol i archwilio'r hyn y gellir ei wneud i gefnogi unigolion niwrowahanol i gael mynediad at wasanaethau'r heddlu ac i deimlo'n ddiogel yng Nghaerdydd.

## Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd

GWASANAETHAU CYFIAWNDER IEUENCTID CAERDYDD / CARDIFF YOUTH JUSTICE SERVICES

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd yn bartneriaeth sy'n cynnwys staff allweddol o asiantaethau partner gan gynnwys Heddlu De Cymru, Ymddiriedolaeth Prawf Cymru, Gwasanaethau Plant, Gyrfa Cymru ac Iechyd i ddarparu ymyrraeth a chefnogaeth i bobl ifanc a'u teuluoedd. Nod y bartneriaeth yw atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu ac aildroseddu gan bobl ifanc 10-17 oed. Maent hefyd yn cynnig cymorth i ddioddefwyr troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc.

Mae gan 70% o'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion sy'n ymwneud â niwrowahaniaeth.  Mae pob person ifanc sy'n cael ei atgyfeirio yn cael ei asesu gan therapydd iaith a lleferydd, sydd â gwybodaeth

arbenigol i allu nodi anghenion unigol y person ifanc a'r teulu. Maent yn gweithio gyda'r person ifanc yn uniongyrchol, yn rhoi cymorth i'r teulu a, phan fo angen, yn bwydo asesiadau yn ôl i'r ysgol.

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd wedi nodi y gall plant gael eu denu i droseddu oherwydd eu niwrowahaniaeth a gwahaniaethau yn y ffordd y maent yn rhyngweithio â'r byd o'u cwmpas. Maent yn cymryd ymagwedd ataliol i gefnogi'r bobl ifanc hyn. Maent yn gweithio'n agos gyda phobl ifanc ag anghenion uchel mewn cartrefi preswyl, gan ddarparu cymorth adferol. Maent hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion i nodi plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd trwy ddarparu asesiadau anghenion i bobl ifanc ac ymyriadau arbenigol trwy eu therapydd iaith a lleferydd.

Mae Bwrdd Rheoli Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ehangach yn goruchwylio Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd, gan greu cysylltiadau agos â gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae memorandwm cyd-ddealltwriaeth newydd wedi'i greu i wella gwaith partneriaeth gydag iechyd, sy'n cynnwys cyfeiriad at weithio gyda phobl ifanc sy'n niwrowahanol. Yn ogystal, mae gweithiwr iechyd yn darparu un pwynt cyswllt i bobl ifanc a theuluoedd sydd ag anghenion a phryderon iechyd.

**Byddwn yn** uwchsgilio dealltwriaeth staff o niwroamrywiaeth trwy weithio gyda'r therapydd iaith a lleferydd i ddarparu hyfforddiant i'r tîm ehangach.

**Byddwn yn** parhau i weithio mewn partneriaeth gyda ffocws ar atal a chefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** darparu ymyriadau arbenigol a chymorth yn seiliedig ar anghenion i bob person ifanc sy'n cael ei atgyfeirio at Wasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Caerdydd.

## GCPhEF Caerdydd a'r Gwasanaeth Prawf

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF yng Nghymru

HM Prison & Probation Service

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (GCPhEF) Cymru wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd cynhwysol ar gyfer carcharorion niwrowahanol a phobl niwrowahanol ar brawf, sy'n cefnogi adsefydlu a thegwch o ran canlyniadau.

Mae CEF Caerdydd yn sicrhau bod unigolion niwrowahanol yn cael yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ffynnu, o fewn CEF Caerdydd a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys darparu offer ymarferol fel troshaenau, pennau darllen a chynnig cymorth un i un uniongyrchol i gynorthwyo gyda darllen a deall, yn ogystal â chyflwyno Rheolwr Cymorth Niwroamrywiaeth pwrpasol.

**Byddwn yn** gweithio i greu amgylchedd cynhwysol a chefnogol ar gyfer carcharorion niwrowahanol yng Nghaerdydd, gan gynnig ystod o wasanaethau wedi'u teilwra sydd wedi'u cynllunio i ddiwallu eu hanghenion unigryw.

### Uned Cyflenwi Prawf (UCP) Caerdydd

Mae'r tîm Prawf yng Nghaerdydd yn cydnabod pwysigrwydd creu amgylchedd croesawgar a theilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion pobl niwrowahanol ar brawf, felly maent wedi cyflwyno sawl adnodd yn Swyddfa Caerdydd er mwyn cynnig amgylchedd tawel i bobl ar brawf wrth iddynt aros am eu hapwyntiad.

**Byddwn yn** parhau i weithio gyda 3SC i gynnig mentora i bobl niwrowahanol ar brawf, a hyfforddiant i staff er mwyn gwella eu dealltwriaeth a'u sgiliau.

**Byddwn yn** gweithio gyda'r Pwynt Cyswllt Unigol enwebedig sy'n mynychu Is-grŵp Niwroamrywiaeth Caerdydd er mwyn gwella dealltwriaeth a rhannu arfer da.

## Balchder Anabledd

Er na fydd pob person niwrowahanol yn uniaethu fel anabl, mae Balchder Anabledd yn agwedd bwysig ar ddathlu'r rhai yng Nghaerdydd sy'n niwrowahanol a'r rhai sydd ag anableddau eraill. Mae Mis Balchder Anabledd yn digwydd bob mis Gorffennaf ac mae wedi cael ei ddathlu yn y DU ers 2015. Mae Balchder Anabledd yn rhoi cyfle i ni godi ymwybyddiaeth o anableddau a niwrowahaniaeth a dechrau sgyrsiau cadarnhaol am amrywiaeth. Mae Scope, gan weithio gyda sefydliadau anabledd eraill, wedi arwain y ffordd yn 2024 a 2025 drwy gynnal sawl digwyddiad i ddathlu Balchder Anabledd yng Nghaerdydd, gan gynnwys



digwyddiad yn y Senedd, arddangosfa gelf i'r anabl yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, a thaith feicio gynhwysol mewn partneriaeth â Pedal Power.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i gynnal digwyddiadau Balchder Anabledd yng Nghaerdydd, gan godi ymwybyddiaeth o anableddau a niwrowahaniaeth a dathlu gwahaniaeth.

## Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd


Nododd y strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd, drwy ymgynghori, fod angen llyfrau sy'n cefnogi oedolion a phlant niwrowahanol ar draws y ddinas. Er bod rhai adnoddau ar gael ar hyn o bryd, bydd adolygiad llawn a dull newydd o ddatblygu casgliadau yn cael eu cyflwyno, gan ddathlu awduron a straeon niwrowahanol.



**Byddwn yn** ymgysylltu â chwsmeriaid niwrowahanol i ddatblygu casgliadau arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion.

## Dathlu Niwrowahaniaeth yn y Celfyddydau

Am y tro cyntaf yng Nghaerdydd, cynhaliodd Neuadd Hoddinott y BBC yng Nghanolfan y Mileniwm gyngerdd y Gerddorfa Ieuenctid Agored Genedlaethol ym mis Mai 2025. Mae'r Gerddorfa'n cynnwys un ar bymtheg o gerddorion gwych anabl a heb anabledd a berfformiodd gerddoriaeth glasurol gyfoes. Cynlluniwyd hwn i fod yn berfformiad hamddenol sy'n addas i bawb, gan gynnwys cynulleidfaoedd niwrowahanol ac anabl, a theuluoedd. Mae'r gyngerdd hon wedi'i chynllunio i fod yn groesawgar i gynulleidfaoedd niwrowahanol ac anabl mewn



awyrgylch mwy anffurfiol, lle mae aelodau'n rhydd i fynd a dod o'r neuadd gyngerdd yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys seddi hamddenol gyda bagiau ffa ac ardal i ymlacio y tu allan i'r neuadd gyngerdd.

**Byddwn yn** gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo digwyddiadau sy'n hygyrch ac yn dathlu niwrowahaniaeth a chynhwysiant yng Nghaerdydd.





## Nod Allweddol 6:

**Gwella amgylcheddau ar gyfer pobl niwrowahanol**

Nodwyd trwy ein gwaith ymgysylltu fod llawer o bobl niwrowahanol a'u teuluoedd yn wynebu anawsterau wrth gael mynediad i adeiladau ac amgylcheddau ar draws Caerdydd oherwydd gwahaniaethau amlsynhwyraidd a diffyg addasiadau. Rydym am weithio tuag at Gaerdydd lle mae anghenion unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd yn cael eu hystyried ar draws pob agwedd ar gymdeithas, gan gynnwys sut y gallwn wneud mannau ar draws y ddinas yn fwy cyfeillgar a hygyrch.

Ein nod yw hyrwyddo amgylcheddau cynhwysol ledled y ddinas a gweithio tuag at Gaerdydd sy'n ceisio gwella hygyrchedd mannau cyhoeddus i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd.

**"Does dim digon o leoliadau sy'n darparu amgylchedd hygyrch"**

**"Mae angen i ni roi sicrwydd bod mannau diogel a thawel ar gael"**

**"Y prif rwystr mewn adeiladau cyhoeddus yw sŵn a thorfeydd"**

## Tai Cyngor Caerdydd

Trwy'r ymgynghoriad, tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd cynnwys tai o fewn y strategaeth a'r heriau y mae pobl niwrowahanol yn eu hwynebu mewn llety â chymorth. Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i adolygu eu Gwasanaethau Tai Arbenigol trwy lens niwrowahanol i sicrhau bod gwasanaethau'n amgylcheddau cynhwysol, hygyrch a chefnogol. Bydd Cyngor Caerdydd yn gweithio gyda phartneriaid a'r rhai sydd â phrofiad bywyd i asesu hygyrchedd synhwyraidd, dylunio gofodol ac integreiddiad nodweddion sy'n ystyriol o niwrowahaniaeth, megis ardaloedd tawel, arwyddion clir ac ardaloedd cymunedol y gellir eu haddasu. Bydd y dull hwn yn helpu Caerdydd i arwain trwy esiampl wrth greu llety sydd nid yn unig yn rhywle i fyw ond a fydd hefyd yn grymuso preswylwyr niwrowahanol yn rhagweithiol.

**Byddwn yn** gweithio gyda phartneriaid a phobl sydd â phrofiad bywyd i adolygu hygyrchedd ein Llety Cymorth a Dros Dro presennol.

**Byddwn yn** datblygu darpariaeth tai cymorth arbenigol i oedolion ag awtistiaeth ac anableddau dysgu.

**Byddwn yn** gweithio gyda chontractwyr i ymgorffori ardaloedd ar gyfer unigolion niwrowahanol wrth adnewyddu ein darpariaethau tai presennol.

**Byddwn yn** ymgorffori gwersi o weithio gydag unigolion a phartneriaid niwrowahanol mewn cynlluniau a datblygiadau ar gyfer gwasanaethau pobl ifanc yn y dyfodol.

## End Youth Homelessness Cymru (EYHC)

Mae End Youth Homelessness Cymru yn elusen sy'n gweithio i roi terfyn ar ddigartrefedd ieuenctid yng Nghymru. Maen nhw'n gwneud hyn trwy geisio gwella dealltwriaeth o achosion digartrefedd ieuenctid a phrofiadau'r bobl ifanc hynny sydd wedi dod i gysylltiad â'r system. Mae hyn yn mynd ochr yn ochr â ffocws ar hyrwyddo pwysigrwydd atal, gan ymgyrchu i greu system sy'n atal cymaint o bobl ifanc â phosibl rhag dod i gysylltiad â'r system ddigartrefedd.

Yn dilyn sgyrsiau gydag ymarferwyr, a'r bobl ifanc eu hunain, daeth i'r amlwg fod gorgynrychiolaeth o bobl ifanc niwrowahanol yn dod i gysylltiad â'r system ddigartrefedd, a oedd wedyn dan anfantais bellach gan fod y system wedi'i chynllunio gyda'r ymennydd niwronodweddiadol mewn golwg. Mae'r ymchwil yn archwilio llwybrau pobl ifanc i mewn i'r system ddigartrefedd, eu profiadau o'r system a'r hyn maen nhw'n credu y dylid ei wneud i wella'r system yn y dyfodol. Mae EYHC wedi troi'r ymchwil yn weithdy i ymarferwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc ar gyfer awdurdodau lleol a'r trydydd sector ac yn parhau i gynnal y gweithdai hyn. Yn yr un modd, maent yn parhau i edrych i ddylanwadu ar newid o gwmpas hyn i sicrhau bod ein systemau'n gweithio i bob person ifanc ac nad ydynt yn atal pobl ifanc niwrowahanol rhag gallu cael mynediad atynt.

**Byddwn yn** parhau i weithio mewn partneriaeth i rannu canfyddiadau'r ymchwil trwy gyflwyno gweithdai i sefydliadau ac ymarferwyr.

## Gwasanaeth Tai Pobl Ifanc Cyngor Caerdydd

Darperir gwasanaethau tai pobl ifanc yng Nghaerdydd drwy ystod o wasanaethau llety â chymorth, atal digartrefedd a chyfryngu. Ar hyn o bryd darperir 220 o unedau o lety i bobl ifanc ledled Caerdydd. Mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu comisiynu gan y Cyngor ac ar hyn o bryd maent yn cael eu darparu gan Llamau a Byddin yr Iachawdwriaeth.

Gwnaeth adroddiad Impossible to Navigate Ending Youth Homelessness Cymru (EYHC) sawl argymhelliad mewn perthynas â phobl ifanc sy'n niwrowahanol ac yn ddigartref. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at gyflawni argymhellion yr adroddiad a'u hymgorffori yn y model gwasanaeth presennol.



Mae'r argymhellion yn cynnwys:-

» Hygyrchedd – gan gynnwys gwybodaeth ac amgylcheddau ffisegol

» Hyfforddiant staff ar Niwrowahaniaeth

» Canolbwyntio ar atal yn gynnar i atal argyfyngau i bobl ifanc

» Cefnogi anghenion cyfathrebu unigol a deall sensitifrwydd synhwyraidd

Mae yna hefyd gynlluniau i edrych ar fodelau amgen o lety i ddiwallu anghenion Pobl Ifanc Niwrowahanol yn well.

**Byddwn yn** ymgorffori argymhellion adroddiad Ending Youth Homelessness Cymru yn y model gwasanaeth presennol gyda'r nod o gefnogi pobl ifanc niwrowahanol.

**Byddwn yn** archwilio modelau darparu llety amgen i gefnogi pobl ifanc niwrowahanol.

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

## Hybiau a Llyfrgelloedd Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth

Fel rhan o'r gwaith o adeiladu Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth, rydyn ni wedi derbyn Cyllid Ffyniant Gyffredin ac wedi bod yn gweithio gyda'n Hybiau a'n Llyfrgelloedd i'w gwneud nhw'n fwy hygyrch a chynhwysol i bobl sy'n niwrowahanol.

**Hyfforddiant Niwrowahaniaeth**


Mae gennym Hyrwyddwyr Gweithle Niwroamrywiaeth wedi'u hyfforddi gan DoIt Solutions sy'n gallu cefnogi cydweithwyr i hyrwyddo a datblygu adnoddau niwrowahanol yn eu gweithle.

Mae staff yr Hybiau hefyd wedi mynychu hyfforddiant a gyflwynwyd gan Autentic i'w helpu i ddeall anghenion cyfathrebu, iaith niwrogadarnhaol a gofodau cynhwysol sy'n cefnogi pobl niwrowahanol yn well.

Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

## Teithiau Rhithiol

Fel rhan o'r prosiect hwn, helpodd Kajima i ddatblygu 20 o deithiau rhithwir o gwmpas ein Hybiau a'n Llyfrgelloedd fel y gall ymwelwyr gynllunio eu hymweliad ymlaen llaw ac ymgyfarwyddo â'r gofod. Mae'r teithiau'n cynnwys mapiau llawr a mapiau synhwyraidd, a theithiau sain sydd wedi'u datblygu gyda Sight Life.



## Adnoddau Synhwyraidd

Gweithiodd Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth gyda Grŵp Ieuenctid Scope a Grŵp Ieuenctid Neuro Roots i gyd-gynhyrchu casgliad o adnoddau synhwyraidd i wneud mannau astudio yn fwy hygyrch i'r rhai sydd ag anghenion synhwyraidd ychwanegol. Dewisodd y grwpiau ieuenctid fag plastig clir fel y gall ymwelwyr weld y cynnwys a theimlo'n hyderus bod ganddyn nhw adnoddau y maen nhw am eu defnyddio cyn eu benthyg yn ystod eu hymweliad.  Mae eitemau mwy fel matiau desg, rhanwyr gofod a chefnau cyfforddus ar gyfer seddi hefyd ar gael i helpu i wella'r amgylchedd.

Mae'r pecynnau adnoddau synhwyraidd yn cynnwys:

» Teganau ffidlan

» Amseryddion tywod a throshaenau lliw

» Lampau a ffaniau desg

» Gweithgareddau lliwio meddwlgarwch

» Amddiffynwyr clustiau

Mae pecynnau synhwyraidd Blynyddoedd Cynnar hefyd wedi cael eu cynhyrchu drwy weithio mewn partneriaeth â Chymorth Cynnar Cyngor Caerdydd ac ymgynghori â theuluoedd o'r Rhaglen Magu Plant.







## Mannau Tawel Synhwyraidd

Mae cilfachau synhwyraidd ac ardaloedd tawelach ar gael mewn llawer o'n Hybiau a'n Llyfrgelloedd i bobl eu defnyddio os ydynt yn ei chael hi'n anodd neu'n teimlo'n bryderus. Mae cilfachau synhwyraidd rhyngweithiol yn cynnwys technoleg synhwyraidd fel carpedi pefriol a goleuadau uwchfioled y gellir eu newid.

Bydd hybiau a llyfrgelloedd eraill yn cynnwys celfi arbenigol i blant ifanc gan gynnwys byrddau golau synhwyraidd a chadeiriau sy'n troelli, gan sicrhau bod pob hyb wedi'i chyfarparu i wella'r amgylchedd synhwyraidd.

Yn ogystal, bydd Hyb Llyfrgell Ganolog Caerdydd yn datblygu gofod tawel pwrpasol ac ardal astudio ar lawr 4.

**Byddwn yn** creu Hybiau a Llyfrgelloedd sy'n Deall Niwrowahaniaeth ac sy'n diwallu anghenion ein cwsmeriaid niwrowahanol.





**Byddwn yn** hyrwyddo'r defnydd o'r adnoddau hyn ar draws Hybiau a Llyfrgelloedd, gan sicrhau bod staff yn gwybod sut i gyfeirio ymwelwyr at yr adnoddau sydd ar gael.

**Byddwn yn** casglu adborth am brofiadau cwsmeriaid o'r amgylchedd a'r adnoddau sydd ar gael i ddeall anghenion a mesur effaith.

**Byddwn yn** cefnogi Hyrwyddwyr Niwroamrywiaeth y Gweithle i rannu'r negeseuon ac arfer gorau gyda'r holl staff yn yr Hybiau a'r Llyfrgelloedd.

## Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Prifysgol Caerdydd

Mae Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n cynnal ymchwil sy'n helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl awtistig a'u teuluoedd. Maent yn gweithio ar y cyd â phobl awtistig a'u teuluoedd fel bod eu hymchwil yn cael ei llywio gan yr hyn sy'n bwysig i'r gymuned awtistiaeth. Mae eu hymchwil yn helpu i wella dealltwriaeth o niwrowahaniaeth. Maent yn canolbwyntio'n arbennig ar nodweddu a deall y profiad awtistig, yn ogystal â datblygu a gwella cefnogaeth i bobl awtistig.

**Byddwn yn** cynnal ymchwil o ansawdd uchel sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl awtistig, eu teuluoedd a'r bobl sy'n eu cefnogi.

**Byddwn yn** cynnwys pobl awtistig a'u teuluoedd yn ein prosesau ymchwil, gan alluogi pobl awtistig i gael llais ystyrlon yn ein hymchwil.

**Byddwn yn** rhannu ein canfyddiadau a'n gwybodaeth gyda chymunedau niwrowahanol, yn ogystal â'r bobl sy'n eu cefnogi.

**Byddwn yn** sicrhau ein bod yn ganolfan gynhwysol sy'n cefnogi ymchwilwyr niwronodweddiadol a niwrowahanol i ffynnu.

## Profiad Siopa sy'n Deall Niwrowahaniaeth - Canolfan Siopa Dewi Sant

Mae Canolfan Siopa Dewi Sant wedi ymrwymo i wneud gwelliannau a darparu profiad manwerthu mwy cynhwysol i'w ymwelwyr, gan fynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl niwrowahanol a'u teuluoedd. Mae ystafell dawel ar gael ar 2il lawr y ganolfan lle gall ymwelwyr gael mynediad at offer synhwyraidd a gofod tawel.

Mae'r ddesg Gwasanaethau Gwesteion sydd wedi'i lleoli ar y Lefel Uchaf ger Bershka a Stradivarius yn darparu laniardiau Anabledd Cudd am ddim i ymwelwyr sydd angen cymorth ychwanegol wrth ymweld â'r ganolfan, siopau a bwytai. Yn ogystal, maen nhw wedi cyflwyno pecynnau synhwyraidd sydd ar gael i'w benthyg am ddim o'u desg Gwasanaethau Gwesteion.

Mae Canolfan Siopa Dewi Sant yn edrych ar ffyrdd eraill o wneud yr amgylchedd yn fwy hygyrch, megis hyfforddiant niwroamrywiaeth i staff, a chreu canllaw hygyrchedd niwrowahanol newydd.

**Byddwn yn** datblygu canllaw hygyrchedd sy'n ystyriol o niwrowahaniaeth, gan ddangos ble y gall gwesteion ddod o hyd i'r gofod tawel a'r adnoddau sydd ar gael, gan wella arwyddion ac ymwybyddiaeth.

## Cei'r Fôr-forwyn

Mae Cei'r Fôr-Forwyn ym Mae Caerdydd yn gweithio gyda Chaerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth i ystyried sut y gallant gefnogi cwsmeriaid niwrowahanol a chreu amgylcheddau sy'n fwy ystyriol o anghenion synhwyraidd. Bydd Cei'r Fôr-Forwyn yn cyflwyno pecynnau o adnoddau synhwyraidd i bobl eu benthyg wrth ddefnyddio eu cyfleusterau, a fydd ar gael i'w casglu o'r ddesg wybodaeth.



Mae Cei'r Fôr-Forwyn hefyd wedi derbyn statws 'Deall Awtistiaeth' gan Niwrowahaniaeth Cymru drwy annog staff i gwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth. Mae Cei'r Fôr-Forwyn wedi ymrwymo i archwilio ymhellach i gyfleoedd hyfforddi i staff er mwyn gwella eu hymwybyddiaeth o sut i gefnogi cwsmeriaid niwrowahanol a chreu amgylchedd croesawgar.

**Byddwn yn** cyflwyno pecynnau o adnoddau synhwyraidd a fydd ar gael i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd eu benthyg pan fyddant yn ymweld.

**Byddwn yn** annog pob aelod o staff i ymgymryd â hyfforddiant niwrowahaniaeth sydd ar gael drwy Niwrowahaniaeth Cymru.

## Byrddau Cyfathrebu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu a chomisiynu byrddau cyfathrebu gyda chefnogaeth adran Therapi Lleferydd ac Iaith Plant BIP Caerdydd a'r Fro.




Maen nhw wedi gweithio mewn partneriaeth â hybiau, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, parciau ac ysgolion Caerdydd i gynnal y byrddau cyfathrebu hyn, lle byddant yn cael eu harddangos i gefnogi anghenion cyfathrebu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd â gwahaniaethau sy'n effeithio ar eu gallu i gyfathrebu.

**Byddwn yn** cyd-drefnu'r gwaith o gyflwyno Byrddau Cyfathrebu mewn lleoliadau cymunedol ar draws Caerdydd a'r Fro.

## Canolfan y Mileniwm

CANOLFAN MILENIWM CYMRU
WALES MILLENNIUM CENTRE

Mae Canolfan Mileniwm Cymru am i gymaint o bobl â phosibl fwynhau theatr ac adloniant byw ac maent wedi ymrwymo i gyflwyno newidiadau i'r amgylchedd a mentrau a fydd yn ei wneud yn ofod mwy hygyrch a chroesawgar i bobl niwrowahanol.

Mae gan Ganolfan y Mileniwm ystafell dawel ar y llawr gwaelod, ym mhrif ardal Glanfa.


Lle y bo'n bosibl maent yn dangos perfformiadau hygyrch a hamddenol penodol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer plant, pobl ifanc neu oedolion a allai fod yn niwrowahanol neu sydd ag anableddau ac anghenion ychwanegol. Mae'r perfformiadau hyn sydd wedi'u teilwra yn caniatáu iddynt wneud sawl addasiad synhwyraidd fel lefelau sain is, newid effeithiau arbennig a goleuadau a chaniatáu i bobl symud o gwmpas yn ystod y perfformiad.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru hefyd wedi ymrwymo i fod yn gyflogwr cynhwysol a gwneud mwy i gefnogi ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth ym mhob rhan o'r sefydliad.

**Byddwn yn** archwilio cyfleoedd hyfforddi i wella dealltwriaeth staff o niwrowahaniaeth a sut i greu amgylcheddau cynhwysol.

**Byddwn yn** ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad byw o niwrowahaniaeth i ddeall effeithiolrwydd gwahanol fentrau a sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd parhaus.





## Stadiwm Principality




Yn ddiweddar, mae Stadiwm Principality wedi lansio canllawiau hygyrch newydd i gefnogwyr ag anableddau a niwrowahaniaeth. Dyma'r adnodd cyntaf o'i fath ar gyfer lleoliadau chwaraeon ac mae'n ymgorffori nodweddion fel hidlyddion sy'n ystyriol o ADCG, cydnawsedd â darllenwyr sgrin a hidlyddion atal ffitiau, gan sicrhau bod pob cefnogwr yn gallu cael mynediad at y wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Mae'r canllawiau hyn, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad ag Access Card ac a grëwyd gan Different Breed, yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am ddigwyddiadau sydd wedi'i theilwra i anghenion hygyrchedd unigol. Law yn llaw â'r canllawiau hygyrchedd hyn, mae Stadiwm Principality wedi ymrwymo i roi mesurau ar waith i greu amgylchedd mwy cynhwysol a chael gwared ar rwystrau i alluogi teuluoedd niwrowahanol i ddod i'r lleoliad.

**Byddwn yn** codi ymwybyddiaeth o'r Canllawiau Hygyrchedd a sut y gall pobl gael mynediad atynt trwy'r ap tocynnau.

**Byddwn yn** parhau i ddarparu ystafell dawel yn y stadiwm ac archwilio cyfleoedd i greu ystafell synhwyraidd.

**Byddwn yn** cyflwyno hyfforddiant niwrowahaniaeth ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol i hyfforddwyr cymunedol a pherfformiad.

## Parciau Caerdydd

Mae Parciau Caerdydd yn cymryd camau i wella hygyrchedd a darparu gwybodaeth gywir i unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd. Mae gwefan Awyr Agored Caerdydd yn cynnig gwybodaeth hygyrchedd ar gyfer pob parc, gan gynnwys lluniau, mapiau a disgrifiadau o gyfleusterau, gan helpu ymwelwyr i gynllunio eu hymweliadau yn hyderus.



Yn ogystal, mae yna amryw o fentrau sydd â'r nod o wneud parciau a mannau awyr agored yng Nghaerdydd yn fwy cynhwysol, pleserus a hygyrch i bawb.

Mae gerddi synhwyraidd ar gael yng Nghaerdydd sy'n cynnig amgylcheddau tawel a rhyngweithiol gydag amrywiaeth o weadau, arogleuon a synau sydd wedi'u cynllunio i gefnogi rheoleiddio synhwyraidd.

Yn yr haf, mae Pad Sblasio Parc Fictoria yn cynnal sesiynau hamddenol ar gyfer unigolion niwrowahanol a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn benodol, gan gynnig lleoliad tawelach, llai ysgogol i fwynhau chwarae dŵr.

Bydd byrddau cyfathrebu mewn meysydd chwarae dethol ar draws Parciau Caerdydd gyda'r nod o gefnogi plant a phobl ifanc sydd â gwahaniaethau cyfathrebu.

**Byddwn yn** ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw o niwrowahaniaeth i weld pa wybodaeth hygyrchedd ddefnyddiol y gallem ei chynnwys ar wefan Awyr Agored Caerdydd.

**Byddwn yn** parhau i ddarparu sesiwn hamddenol ar gyfer Pad Sblasio Parc Fictoria ac yn archwilio sut y gallwn wneud digwyddiadau a gweithgareddau eraill yn y parciau yn fwy cynhwysol.

**Byddwn yn** cefnogi'r gwaith o gyflwyno byrddau cyfathrebu pellach ar draws Parciau a Meysydd Chwarae yng Nghaerdydd, yn amodol ar gyllid sydd ar gael.

# Trafnidiaeth Cymru

Mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio'n agos gyda'r Panel Mynediad a Chynhwysiant i sicrhau eu bod yn darparu hygyrchedd a gwasanaeth cwsmeriaid o'r safon uchaf i bob cwsmer a rhanddeiliad. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi ymrwymo i wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o niwrowahaniaeth ar draws y sefydliad ac i wrando ar leisiau unigolion niwrowahanol er mwyn helpu i lunio mentrau a ffyrdd newydd o gefnogi unigolion niwrowahanol a'u teuluoedd i gael mynediad at drafnidiaeth ledled Cymru.

**Byddwn yn** ymgorffori polisi a chynllun gweithredu niwroamrywiaeth sydd wedi'i gynllunio i wella profiadau ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid sy'n niwrowahanol.

**Byddwn yn** ehangu ein Panel Mynediad a Chynhwysiant i gynnwys ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad byw o niwrowahaniaeth.

**Byddwn yn** cyflwyno hyfforddiant niwrowahaniaeth ar draws TC, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r cynllun waled oren a laniardau blodau'r haul.

**Byddwn yn** sicrhau bod y Polisi Mynediad a Chynhwysiant yn cofleidio profiadau'r rheini sydd â phrofiad byw o niwrowahaniaeth ac yn datblygu gwasanaethau cwsmeriaid yn unol â hynny.



## Prosiect Cyfeirbyst Canol y Ddinas a Bae Caerdydd

Ar hyn o bryd mae canol dinas Caerdydd a Bae Caerdydd yn cynnwys amrywiaeth o wahanol fathau o gyfeirbyst i gerddwyr (arwyddbyst a thotemau) a osodwyd ar wahanol gamau rhwng diwedd y 1980au a dechrau'r 2000au. Mae'r twf cynyddrannol hwn wedi cyfrannu at ddiffyg arweiniad cydlynol i gerddwyr, sy'n cael ei waethygu gan y ffaith fod rhai o'r arwyddion wedi treulio a bod eraill yn cynnwys gwybodaeth nad yw'n gywir mwyach.




Bydd y prosiect hwn yn cael gwared ar y seilwaith cyfeirbyst presennol i gerddwyr a'i ddisodli gan system symlach o dotemau map ac arwyddbyst ategol i helpu i arwain pobl drwy'r ardal. Bydd y cyfeirbyst newydd yn cynnwys testun dwyieithog, yn defnyddio eiconau ac arwyddluniau, yn rhoi pellteroedd cerdded ac yn ymgorffori mapiau o ganol y ddinas/y bae i helpu dinasyddion, yn cynnwys pobl niwrowahanol, i ddeall cynllun yr ardal a sut i fynd o le i le.

**Byddwn yn** cwblhau'r prosiect cyfeirbyst yn 2025 gan wella arwyddion yng nghanol y ddinas.

## Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd 2021-2036 Cyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd yn paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer Caerdydd a fydd yn helpu i siapio Caerdydd erbyn 2036, gan sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir, gan ddod â buddion i gymunedau a'r economi.

Mae'r cynllun adneuo drafft llawn wedi bod yn destun ymgynghoriad, lle ymgynghorwyd ar ystod o bolisïau, gan helpu i sicrhau bod cynigion datblygu yn cynorthwyo i ddarparu cymunedau cydlynol ac yn mynd i'r afael â materion cynhwysiant a hygyrchedd. Mae Polisi Strategol 4 (Sicrhau Dylunio Cynaliadwy o Ansawdd Da) yn cyfeirio'n uniongyrchol at ddylunio adeiladau ac amgylcheddau cynhwysol a'r angen i ystyried newidiadau yn y dyfodol o ran gofynion iechyd a chymdeithasol, economaidd, technolegol ac amgylcheddol. Bydd y canllawiau hyn yn gweithio i sicrhau bod datblygiadau yng Nghaerdydd yn y dyfodol yn gynhwysol ac yn diwallu anghenion defnyddwyr niwrowahanol ac anabl.

**Byddwn yn** sicrhau bod pob datblygiad newydd yng Nghaerdydd yn cael y canllaw sy'n ymwneud â Pholisi Strategol 4 sy'n hyrwyddo adeiladau a mannau cynhwysol sy'n deall niwrowahaniaeth yng Nghaerdydd.


Croeso i Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyngor Caerdydd 2021 i 2036

Rydym yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer Caerdydd i gymryd lle'r CDLl presennol. Enw'r cynllun newydd fydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Caerdydd.

Mae'n bwysig iawn ein bod yn cael y cynllun yn iawn.

Bydd y CDLl Newydd yn siapio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir, yn dod â manteision i gymunedau a'r economi ac yn nodi pa ardaloedd mae angen eu diogelu.

# Monitro Cynnydd

Mae Caerdydd sy'n Deall Niwrowahaniaeth yn fenter sydd ar waith ledled y ddinas, a'n nod yw gweithio mewn partneriaeth a chymryd camau ar y cyd i wella gwasanaethau a chreu dinas fwy cynhwysol. Mae pob partner yn y strategaeth yn gyfrifol am ei ymrwymiadau ei hun i'r gwaith hwn, gyda chydnabyddiaeth na fydd ariannu'r ymrwymiadau yn gyfrifoldeb i'r Cyngor yn unig. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu monitro cynnydd a gwerthuso'r camau a gymerwyd, bydd Grŵp Adolygu Cabinet Cyngor Caerdydd yn cael ei ffurfio gyda threfniadau adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Bydd y datganiadau 'byddwn ni' a restrir drwy gydol y strategaeth yn sail i gynllun gweithredu pum mlynedd, a fydd yn cael ei fonitro gan y Grŵp Adolygu.  Dros y 5 mlynedd bydd adolygiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi, gan ddarparu diweddariadau a thryloywder ar newidiadau sydd wedi'u gwneud a sut y byddwn yn mesur effaith y camau gweithredu hyn.

**Byddwn yn** creu cynllun gweithredu ac yn monitro cynnydd trwy ymgysylltu â phartneriaid a chyhoeddi adolygiad blynyddol.

# Casgliadau a Chamau Nesaf

**“Mae angen i ni gynnwys pawb”**

Datblygwyd y strategaeth Caerdydd sy’n Deall Niwrowahaniaeth hon gyda 6 nod allweddol clir a gweledigaeth ar gyfer dinas fwy cynhwysol.  Mae’r nodau allweddol hyn yn darparu fframwaith o gamau y byddwn yn eu cymryd i ddechrau ar ein taith o weithio tuag at ddinas sy’n Deall Niwrowahaniaeth.  Fodd bynnag, rydym yn cydnabod, wrth i ni barhau i archwilio rhwystrau sy’n wynebu pobl a theuluoedd niwrowahanol yng Nghaerdydd, efallai y bydd mwy o flaenoriaethau y mae angen eu hystyried.

Ein huchelgais yw i gynnydd Caerdydd sy’n Deall Niwrowahaniaeth gael ei siapio gan y gymuned niwrowahanol lle mae cyfleoedd parhaus ar gyfer ymgysylltu. Rydym yn gobeithio sefydlu fforwm Caerdydd sy’n Deall Niwrowahaniaeth sy’n pontio’r cenedlaethau, lle gall pobl sydd â phrofiad byw ddweud eu dweud ar newidiadau rydyn ni’n eu gwneud ledled y ddinas.

Ni all y Cyngor gyflawni ein gweledigaeth ar ei ben ei hun, a bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i gyflawni’r canlyniadau gorau i bobl a theuluoedd niwrowahanol ledled Caerdydd. Trwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau ledled Caerdydd a pharhau i wrando a chynnwys y gymuned niwrowahanol, ein nod yw cael gwared ar rwystrau a chreu amgylcheddau cefnogol i bobl niwrowahanol ar draws y ddinas..

## Diffiniadau Defnyddiol

**Niwroamrywiaeth (niwroamrywiol)**: Y cysyniad bod ymennydd pawb yn unigryw a'n bod ni i gyd yn meddwl yn wahanol.

**Niwrowahaniaeth (niwrowahanol)**: Yn cyfeirio at unigolion sydd â gwahaniaethau sylfaenol yn y ffordd y maen nhw'n canfod ac yn rhyngweithio â'r byd, gan gynnwys gwahaniaethau o ran dealltwriaeth gymdeithasol, prosesu synhwyraidd, cyfathrebu a phrosesu gwybodaeth.

**Niwronodweddiadol**: Yn cyfeirio at unigolion y mae eu hymennydd yn gweithredu mewn ffordd sy'n cyd-fynd â normau a disgwyliadau cymdeithasol.

**Cyflwr niwrolegol caffaeledig**: Anhwylder sy'n effeithio ar y system nerfol sy'n datblygu ar ôl genedigaeth oherwydd anaf, salwch, neu ffactorau allanol eraill.

**Awtistiaeth**: Math o niwrowahaniaeth a nodweddir gan wahaniaethau o ran rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu, a sut mae unigolion yn rhyngweithio â'r byd.

**Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADCG)**: Math o niwrowahaniaeth a nodweddir gan batrymau parhaus o ddiffyg canolbwyntio, gorfywiogrwydd a byrbwylldra a all effeithio ar fywyd o ddydd i ddydd.

**Dyscalcwlia**: Gwahaniaeth dysgu penodol sy'n effeithio ar allu unigolyn i ddeall a chyflawni tasgau mathemategol.

**Dyslecsia**: Gwahaniaeth dysgu penodol sy'n effeithio ar allu unigolyn i ddarllen, sillafu a phrosesu iaith ysgrifenedig.

**Dyspracsia: a elwir hefyd yn Anhwylder Cydsymud Datblygiadol (ACD)**: Math o niwrowahaniaeth a all effeithio ar gydsymudiad corfforol a sgiliau echddygol.

**Syndrom Tourette**: Syndrom a nodweddir gan synau neu symudiadau ailadroddus, anwirfoddol, o'r enw ticiau.

**Gweithrediad Goruchwyliol**: Term ar gyfer y set o brosesau gwybyddol sy'n galluogi unigolion i gynllunio, canolbwyntio, cofio cyfarwyddiadau a rheoli tasgau lluosog yn effeithiol.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)**: Y cymorth ychwanegol sydd ei angen ar bobl sydd ag anawsterau neu anableddau sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt ddysgu o'i gymharu â'r rhai nad oes ganddynt anghenion dysgu ychwanegol.

**Anabledd Dysgu**: Gallu is i ddeall gwybodaeth newydd neu gymhleth, dysgu sgiliau newydd, ac ymdopi yn annibynnol, sy'n dechrau cyn oedolaeth.

**Anghenion cymorth uchel**: Term sy'n cyfeirio at unigolion sydd angen lefelau uwch o gymorth i oresgyn heriau corfforol, gwybyddol neu emosiynol er mwyn cyflawni gweithgareddau dyddiol a chael ansawdd bywyd da.

**Anghenion cymorth isel**: Term sy'n cyfeirio at unigolion sydd angen lefel isel o gymorth i gyflawni gweithgareddau dyddiol a chyflawni eu nodau.

**Cyflyrau sy'n cyd-ddigwydd**: Dau neu ragor o fathau o niwrowahaniaeth yn yr un unigolyn.

**Niwrogadarnhaol**: Cofleidio natur unigryw a chryfderau pobl niwrowahanol, gan gynnwys hyrwyddo amgylcheddau y gallant ffynnu ynddynt.

**Masgio**: lle bydd unigolyn yn cuddio ei bersonoliaeth neu ymddygiad naturiol neu'n atal nodweddion penodol er mwyn ymddangos yn niwronodweddiadol.

**Camreoleiddiad synhwyraidd ac emosiynol**: Anawsterau wrth reoli mewnbwn synhwyraidd ac ymatebion emosiynol, sy'n aml yn arwain at sensitifrwydd uwch neu ymatebion dwys.

**Stimio**: Symudiadau neu synau ailadroddus a wneir gan unigolion, yn aml fel ffordd o hunan-gysuro neu reoli mewnbwn synhwyraidd.

**Nodweddion neu Briodoleddau**: Gwahaniaethu rhwng rhinweddau neu briodweddau sy'n diffinio personoliaeth neu ymddygiad unigolyn.

**Ableddiaeth**: Gwahaniaethu neu ragfarn yn erbyn pobl ag anableddau, a ffafrio unigolion abl.

**Stigma**: Yr agweddau, credoau, a gwahaniaethu negyddol a gyfeirir at unigolion neu grwpiau ar sail gwahaniaethau neu nodweddion canfyddedig.

**Hyrwyddwr Niwroamrywiaeth yn y Gweithle**: Cynrychiolydd o fewn sefydliad sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi cynhwysiant a lles cyflogeion niwrowahanol.

**Cyd-gynhyrchu**: Nifer o bartïon yn creu rhywbeth ar y cyd, yn cynnwys pobl sydd â phrofiad byw a darparwyr gwasanaeth fel arfer.

**Dan arweiniad cyfoedion**: Yn cyfeirio at fentrau neu weithgareddau sy'n cael eu cyd-drefnu gan bobl sy'n rhannu profiadau byw tebyg.

**Canolbwyntio ar y Person**: Dull sy'n blaenoriaethu dewisiadau, anghenion a gwerthoedd yr unigolyn.

**Cynaliadwyedd**: Yr arfer o ddiwallu anghenion y presennol heb niweidio gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

**Dull systemau cyfan**: Dull o ddatrys problemau sy'n ystyried pob rhan gydgysylltiedig o system.

**Hygyrch**: Gwybodaeth neu fannau sydd yn rhydd rhag rhwystrau diangen, p'un ai'n gorfforol, synhwyraidd, gwybyddol, diwylliannol neu'n ymwneud ag iaith.

**Cynhwysol**: Sicrhau bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu a'u bod yn gallu cymryd rhan.